YR YMOFYNYDD.

Rhif. 61.] IONAWR, 1864. [Ail Gyfres.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

BYWGRAFFIAD Y DIWEDDAR BARCHEDIG TIMOTHY DAVIS, O EVESHAM.

Gwrthrych ein cofiant ydoedd drydydd plentyn, ac ail fab, i'r diweddar enwog Barchedig David Davis o Gastell-Hywel, yn Sir Aberteifi. Ganwyd ef yn y Plas-bach, Ciliau-Aeron, yn yr un sir, ar yr 20fed o Dachwedd, 1779. Pan oedd oddeutu pedair blwydd oed, symudodd y teulu i Gastell-Hywel, yn mhlwyf Llandyssil. Yma yr oedd gan ei dad fferm helaeth iawn—cadwai Ysgol Ramadegol o'r enwoccaf o bosibl yn ei dydd, ac yr oedd arno ofal gweinidogaethol pedair neu bump o eglwysi—y rhai ydynt fel y canlyn, Llwyn-rhyd-Owen, yn mhlwyf Llandyssil; Alltyblacca, yn Llanwenog; Penrhiw, yn Llangeler; a Chiliau ymhlwyf Ciliau; a Mydroilyn ymhlwyf Llanarth. Cymaint oedd enwogrwydd yr *ysgol* fel yr oedd y Cyd-ffurfwyr a'r Anghydffurfwyr, yn ddiwahaniaeth, yn anfon eu plant ato i dderbyn addysg. A dywedir fod nifer fawr o ddynion ieuainc a urddid yn Esgobaeth Tyddewi, wedi derbyn eu haddysgiaeth yn Nghastell-Hywel, hyd nes y darfu i Esgob Horsley, wedi clywed y newydd, gyhoeddi na chai un dyn ei urddo yn ei esgobaeth ef a fyddai wedi derbyn ei addysg oddiwrth ymneillduwr. Bu Timothy yn myfyrio'r *classics* o dan ofal ei dad hyd nes yr oedd yn ddwy-ar-bymtheg oed, pryd y rhoddodd hwynt i fynu am tua dwy flynedd er mwyn cymeryd gofal y fferm, yn ol ei duedd ei hun a bwriad ei dad. Yr oedd ei syched am wybodaeth gymaint fel y myfyriai yn ddiwyd ar ol i lafur a lludded y dydd fyned drosodd, a chadwai ymlaen gyda y rhai hyny ag oeddynt yn myfyrio yn rheolaidd yn yr ysgol.

"Clywais hyn (meddai un o'i neiaint) gan fy nhadcu pan yn ymdrechu dangos i ni pa bethau eu maint a allai diwydrwydd a dyfal-barhad ei wneuthur, hyd y nod yn ngwyneb llawer o anfanteision."

Cyfododd awydd disymwyth yn ei feddwl am fyned i'r weinidogaeth (mor ddisymwyth fel y cofiai y prydnawn Sabboth, ar yr hwn y teimlodd ef gyntaf) a myned i Gaerfyrddin gyda bwriad i gael ei dderbyn i'r athrofa ar yr amser priodol. Wedi cael arwyddion o foddlonrwydd ei rieni aeth drosodd yn uniongyrchol. Pan yn cofnodi yr amgylchiad hwn flynyddau ar ol hyny, y mae yn sylwi—"Pe buaswn yn agored i benboethni gallaswn briodoli hyn i alwad oruwchnaturiol: yr oedd yn sydyn neillduol, ac yn syndod i'r holl ardal:" ac yna y mae yn myned yn y blaen i gyfrif am y cyfnewidiad mewn ffordd fwy rhesymol, neu yn fwy unol â threfn gyffredin

pethau. Pregethasai Dafydd, ei frawd henaf, a chyd-ysgolhaig iddo, eu pregethau cyntaf y Sabboth hwnw yn Llwyn-rhyd-Owen, a phriodola efe ei gyfnewidiad disymwyth i'r effaith a gawsant ar ei feddwl, er y dichon mai y gwir achos oedd dylanwad pregethau ei dad, yr hwn oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf effeithiol ymhlith y Presbyteriaid yn Nghymru. Y mae nodiadau a wnaed ganddo ef ei hun yn ei ddydd-lyfr ac a gaed yn Sir Aberteifi ryw ddeng mlynedd ar hugain ar ol hyny, yn dangos fod teimladau tra chrefyddol yn ei lywodraethu yn flaenorol, ac na chymerodd y cyfnewidiad pwysig hwn le ynddo heb ei fod ymlaenaf wedi ystyried pwysigrwydd y gwaith a gymerai arno. Dechreuodd ar ei ysgol gyda'r Parch. David Peter, (yr hwn y pryd hwnw a gadwai Ysgol Ramadegol mewn cysylltiad â'r Athrofa) ar y trydydd o Ionawr, 1798, a derbyniwyd ef i'r Athrofa yn Awst yr un flwyddyn. Yr oedd ei awydd a'i barodrwydd at waith ei Arglwydd y fath fel y dechreuodd bregethu ar y 19fed o Fai, 1799; a dywedir iddo yn fuan ar ol hyn bregethu deirgwaith yn lle Mr. Peter, unwaith yn Saesoneg, a dwy-waith yn Gymraeg, er boddlonrwydd cyffredinol. Bu yn gweinyddu yr *ordinhad* yn Rhydypark cyn cael ei neillduo yn weinidog rheolaidd, ar yr hyn fe ddichon y gosodid mwy o bwys yn gyffredin y pryd hwnw nag a wneir yn awr. Ar ddiwedd ei yrfa *golegawl*, yr hon a dreuliodd gyda gradd helaeth o gymeradwyaeth, derbyniodd alwad i ddyfod yn gydweinidog a'i dad. Nid ydym yn gwybod yn gymhwys pa mor unfrydol ar ran yr eglwysi oedd yr alwad hon, gan na chlywn yr hanes yn cael ei adrodd yn gymhwys yn yr un modd gan bawb; pa fodd bynag am hyny derbyniodd ef yr alwad, a chafodd ei neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth drwy *urddiad*, yn ol defod yr enwad ar yr amser hwnw. Cymerodd y Parch. David Peter, a'r Parch. David Davies, ei ddau athraw, ran yn ngwasanaeth ei urddiad. Y mae ei dyst-lythyr *(certificate)* yn rhedeg fel y canlyn:—

"*This is to certify that the Reverend Timothy Davis has been solemnly set apart for the work of the ministry among Protestant Dissenters, in the presence and with the concurrence of us—*

David Davis (ei dad)	G. Griffith (Llechryd)
Evan Davies (Cae'ronen)	David Peter (Caerfyrddin)
David Davies (Llanybri)	David Davis (Neath, ei frawd)
	David Saunders

Llwynrhydowen, August 19th, 1802.

Y mae cyfieithiad i'r Saesoneg o'i Gyffes Ffydd mewn naw o erthyglau, yn cynhwys attebion i ofyniadau mewn perthynas i'w fwriad yn myned i'r weinidogaeth ymhlith Ymneilldwyr Protestanaidd, a'i gymeriad mewn gwahanol gysylltiadau eraill yn faith iawn, ac felly yn anmhwrpasol i'w osod i mewn yma. Y mae yn myned dros holl athrawiaethau Cristionogaeth mewn ymadroddion cyffredinol *(general terms)* gan egluro athrawiaethau ffydd ymarferol, gan mwyaf, mewn iaith ysgrythyrol. Ac er fod ei Gyffes y fath, fel y gellid ei deall mewn amryw ffyrdd, eto y mae yn amlwg ei fod ef y pryd hwn yn Arian gwresog. Yn wir nid ydoedd y golygiadau Undodaidd ond dechreu cael eu mynwesu yn Sir Aberteifi y pryd hwn, a hyny ond gan nifer fechan iawn o bersonau. Cymaint oedd gwrthwynebrwydd y Parch. David Peter, Caerfyrddin, at yr "Heresi Socinaidd," fel na chai neb ei dderbyn i'r Athrofa os byddai wedi cael ei lygru ganddi; ac yn hyn dywedai ei fod yn dwyn allan benderfyniadau y *Presbyterian Board.*

Fel yr oedd golygiadau mwy rhydd-frydig yn ymdaenu dechreuid teimlo anfoddlonrwydd i'r ysbryd cul a gwrachaidd hyn, a chynhygiwyd ymhen deuddeng mlynedd ar ol hyn fod i'r Parch. David Davis o Gastellnedd, (brawd henaf Mr. Davis) yr hwn oedd yn ysgolor rhagorol, ac yn wr a berchid yn fawr, i sefydlu Athrofa newydd, ond ni ddaeth y cynhygiad hwn i weithrediad, ac ni fu ei eisieu yn hir oblegyd daeth Athrofa Caerfyrddin yn agored i bawb Cristionogion. Diolchwn am hyn, frodyr, ac na'n dalier drachefn dan iau caethiwed. Bu gweinidogaeth Mr. Davis, fel cyd-weinidog a'i dad, yn hynod dderbyniol a llwyddianus. Er nad yw prophwyd yn gyffredin yn cael anrhydedd yn ei ardal ei hun, eto cymaint oedd parch ei dad yn yr eglwysi fel yr oedd nid yn unig ddim yn anfantais ond yn elfen bwysig yn ei lwyddiant ef. Heblaw hyn yr oedd ei dymher fwyn, ei rodiad hardd, ei lais swynol, a'i ddull difrifol a syml o bregethu yn sicrhau iddo barch a derbyniad cyffredinol. Ei ddull cyffredin o bregethu ydoedd ymarferol, ac anfynych y byddai yn trin pynciau dadleugar oddieithr pan y gelwid arno wneud hyn. Ond pan y cymerai mewn llaw y gorchwyl o egluro rhyw bwnc dadleugar dangosai fod ganddo feddwl eglur a dealladwy arno. Cynhyddodd yr eglwysi lawer yn amser ei weinidogaeth, a gwresogodd serch y bobl tuag ato yn feunyddiol; arwyddion allanol o'r hyn a'i cadwodd rhag ymadael â hwynt pan y cawsai gynyg ar well manteision. Parhaodd tymhor blaenaf ei weinidogaeth hyd haf y flwyddyn 1810. Dechreuodd wneud adnabyddiaeth yn Lloegr yn y flwyddyn 1803, pan y talodd ymweliad â'i ewythr, brawd ei dad, y Parch. B. Davis, yr hwn, am yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes, a fu yn weinidog Presbyteraidd yn Evesham. Mewn canlyniad i'r ymweliad hwn derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Cosely i ddyfod yn ganlyniedydd i'r Parch. Mr. Allard, fel eu gweinidog. Ond llwyddodd llefau y Cymry i'w berswadio i beidio a myned. Pa fodd bynag nid oedd yn derbyn rhagor am ei lafur nag oedd o'r braidd yn ddigon i wneud i fynu ei anghenion personol, ac o ganlyniad penderfynodd i geisio lle mwy manteisiol yn Lloegr. Yn Hydref 1809, derbyniodd lythyr oddiwrth y Parch. Peter Emans, o Coventry, yn ei wahodd i ddyfod i ymweled â'r dref honno gyda'r amcan iddo ddyfod yn gynhorthwywr iddo ef. Cydsyniodd â'i gais; aeth drosodd, a thra y bu yn aros yma ffurfiodd amryw gyfeillachau a barhasant yn anwyl iddo hyd derfyn ei fywyd hir: ac ar ol ei ddychweliad derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys i ddyfod yn gyd-weinidog â Mr. Emans. Penderfynodd ar unwaith i'w derbyn, ond yr oedd y cysylltiad rhyngddo a'i gyfeillion yn Ngheredigion yn agosach nag y meddyliasai; a gorfu arno, wedi llawer o betrusder, roddi pob meddwl i fynu. Yn ei attebiad i S. Carter, Yswain, dyddiedig Llwyn-rhyd-owen, Ionawr 19eg, 1810, y mae yn rhoi yr eglurhad canlynol: "Ar fy nychweliad i Sir Aberteifi cefais fod eich llythyr wedi cyrhaedd yno o'm blaen. Gwnaethum bob brys gan hyny i wneud fy mwriad yn hysbys i'r eglwysi ag oeddwn wedi bod yn cyd-lafurio a'm tad yn eu plith am agos i naw mlynedd, heb ddisgwyl y cawswn un anhawsder i ymadael, er y gwyddwn y byddai yn orchwyl anhawdd i'm teimladau fy hun. Darllenais anerchiad ymadawol byr yn y gwahanol eglwysi ar ol y bregeth, a chafodd fwy o effaith nag a fuaswn byth yn ei ddychmygu. Ni welais erioed, ac nis gallaf byth anghofio y fath arwyddion o deimladau gwresog ag a ddangosodd y gynulleidfa y darllenais fy anerchiad gyntaf iddi wedi fy nychweliad. Yr oedd yr holl gynulleidfa yn tywallt dagrau yn hidl; ac nis gallai hyn lai na chael effaith

fawr arnaf; ond pan y canfyddais fod yr un teimladau yn cael eu hamlygu yn yr eglwysi eraill hefyd, y rhai a wnant i fynu yn gyfanswm ryw chwech neu wyth cant o gymunwyr, nis gallaswn feddwl am ymadael â hwynt." Yr oedd hyn yn siomedigaeth fawr i'w gyfeillion yn Coventry; ond penderfynasant i wneud un ymdrech ychwanegol, a deisyfasant ar yr enwog Dr. Toulmin i ddadleu eu hachos. Ysgrifenodd y gwr clodfawr hwn ato yn y modd mwyaf taer, gan osod o'i flaen y manteision a allai gael, rhagor i'r hyn oedd yn feddianu yn awr; ac y gallai fod yn sicr y byddai iddo dderbyniad calonog gan bob aelod o'r gynulleidfa. Ysgrifena boneddiges ato gan ddyweud, "O, yr wyf yn gobeithio y deuwch yma i'n gwaredu ni rhag y gweddiau athronyddol a'r pregethau dadleugar yma."

Bu y pethau hyn ynghyd a llawer o ystyriaethau eraill yn foddion i berswadio Mr. Davis i adael gwlad ei dadau; a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn y *Great Meeting*, Coventry, Medi 9fed, 1810.—*I'w barhau.*

BONCLUST YN EI BRYD.

(O'R GERMAN.)

Yn un o brif ddinasoedd Gogledd Germany, yr oedd marsiandwr o'r enw Mueller yn byw, yr hwn, yn ei hen ddyddiau, oedd yn aml yn cyfarfod â dyn ifangc, hardd a thrwsiadus, yr hwn oedd bob amser yn ei gyfarch yn y modd mwyaf cyfeillgar. Yr oedd Herr Mueller yn wastad yn dychwelyd y cyfarchiad, ond yn gymmaint ag nad oedd ddim yn cofio ei fod wedi gweled y dyn ifangc o'r blaen, yr oedd yn meddwl ei fod yn ei gymmeryd ef yn lle rhywun oedd yn debyg iddo. Un diwrnod cafodd Herr Mueller ei wahodd i dŷ cyfaill yn y wlad, ac wedi cyrhaeddyd yno cafodd y dyn ifangc hwn yno yn ymddiddan yn brysur iawn â gwr y tŷ. Wedi iddo ddynesu atynt, dymunai gwr y tŷ *introducio* ei gyfeillion y naill at y llall, ond gwnaeth yr iengaf o honynt amnaid â'i law a dywedodd, "Nid yw yn angenrheidiol, yr ydym yn adwaen ein gilydd er ys amryw flynyddau."

"Yr wyf yn credu eich bod yn camsynied yn awr," meddai Herr Mueller; "yr wyf yn aml wedi derbyn cyfarchiad cyfeillgar oddiwrthych, ond ym mhellach nâ hyn, yr ydym yn berffaith ddieithriaid."

"Ac etto y mae yn eithaf gwir fy mod i yn eich adwaen er ys hir amser, ac y mae yn llawen iawn genyf eich gweled yma yn bresennol, fel y byddo i mi i roddi i chwi ddiolchgarwch gwresocaf fy nghalon."

"Yr ydych yn siarad mewn dammegion; pa fodd y gall eich diolchgarwch fod yn ddyledus i mi os nad wyf erioed wedi dyfod i adnabyddiaeth â chwi."

"Hen stori, ond os eisteddwch i lawr fân yma, ac os gwrandewch arnaf am ychydig funydau, yr wyf yn meddwl y gallaf, feallai, ddwyn fy hunan ar gôf i chwi. Tua dwy flynedd ar bymtheg yn ol,—nid oeddwn i ond crwt naw mlwydd oed y pryd hwnw—ar foreu o auaf, tuag amser Nadolig, pan oeddwn ar fy ffordd i'r ysgol, meddyliais mai peth hyfryd iawn fuasai i mi gael afal i'w fwyta gyda'r bara oedd fy mam wedi roi i fod yn frecwast i mi; yr oedd afalau mawrion braf yn aml iawn gyda fy nghyfeillion, ond anfynych iawn yr oeddwn i yn cael dim o'r fath beth. A'm meddwl fel hyn ar yr afalau, daethum at y tŷ farchnad, yr hwn oedd ar fy ffordd i'r ysgol; yr oedd amryw fasgedi yn llawn o'r ffrwythau mwyaf hyfryd yr olwg, yr oedd y temtasiwn yn fawr iawn. Nis gallwn i ddim llai na sefyll i edrych arnynt. Trodd y fenyw ei chefn ar ei ffrwythau, ac yr oedd yn ymddiddan yn wresog

iawn âg un o'i chymmydogion. Pryd hyny daeth i'm meddwl mai braidd y gallasai sylwi pe buaswn i yn cymmeryd afal, yr oedd yno gynnifer o honynt. Estynais fy llaw allan yn lladradaidd, ac yr oeddwn ar fedr gosod fy ngwobrwy yn ofalus yn fy mhoced, pan yn ddisymmwth y cefais y fath fonclust boeth ag a barodd i mi i ollwng yr afal mewn dychryn i syrthio i'r llawr. Ac ar yr un pryd, meddai llais difrifol, "Fachgen! beth ddywed yr wythfed gorchymmyn? Yn awr yr wyf yn gobeithio mai hwn yw y tro cyntaf i chwi i estyn eich llaw allan i gymmeryd meddiannau ereill, bydded hefyd y tro diweddaf." Teimlais fy mod wedi cochi o glust i glust gan gywilydd, a braidd yr oeddwn yn beiddio codi fy llygaid; ond nis gallswn i ddim anghofio pryd a gwedd y dyn hwn, ddim mwy nag y gallswn anghofio yr amgylchiad ei hunan. Ar y cyntaf yr oeddwn yn absennol iawn yn yr ysgol; yr oedd y geiriau a glywais yn parhau i swnio yn fy nghlustiau; yr oedd fy nghalon mor llawn, fel y gallswn wylo, ond yr oedd fy meddyliau yn aros fwyaf ar y sylw olaf,—"Bydded y tro diweddaf!" a gwnaethum benderfyniad pendant. Caiff yn wir, caiff fod y tro cyntaf a'r tro diweddaf hefyd. Yn hir wedi hyny pan yr oeddym yn adrodd y Catecism, a phan gofynodd yr athraw, "Beth ydyw yr wythfed gorchymmyn?" adgofiodd fi yn union am guriadau cyflym fy nghalon y boreu hwnw. Ymhen ychydig flynyddau wedi'n, pan oeddwn wedi ymadael a'r ysgol, aethum i swyddfa cyfaill i fy nhad yn Bremen, ac oddi yno wedi hyny aethum i South America. Yn y fath sefyllfaoedd, gellwch farnu yn hawdd, fod y temtasiynau i estyn y llaw allan a chymmeryd meddiannau ereill yn dra aml yn syrthio i rân marsiandwr ifangc, ac o'r cyfryw demtasiynau cefais innau fy rân; ond pa bryd bynag y buasai y temtasiynau yma yn dynesu tuag ataf, yr oeddwn fel be byddwn yn teimlo o'r newydd fy monclust boeth, ac yn clywed y geiriau, "Bydded y tro diweddaf."

THEODORE PARKER AR YR ENW CRISTION.

Mr. Gol.,—Mae Mr. Evans o'r Cefn yn y rhifyn diweddaf o'r Ymofynydd wedi dechreu cyfres o lythyrau er profi nad oedd Theodore Parker o'r America yn Gristion. Yn nghwrdd blynyddol Capelygroes, yr oedd ganddo ffordd fer iawn i benderfynu'r pwnc, sef fod "Theodore Parker yn gwrthod yr enw, ac yn dewis yn hytrach gael ei alw yn Theist." (Gwel Ymofynydd Rhif. 56, tud. 177). Nid yn unig hyn, ond yr oedd Mr. E. yn "canmol tegwch a gonestrwydd Parker am roddi i fynu yr enw Cristion," (tud. 178). Yn awr, os oedd Parker ei hun yn dewis ymwrthod â'r enw Cristion, a galw ei hun ar enw arall yn hytrach; ac os oedd profion o hyn wrth law yn ei weithiau lliosog, dyna'r cyfan ar ben, heb eisieu i neb i ymdrafferthu i ysgrifenu mwy na mwy ar bwnc mor oleu â'r dydd. Buasai un frawddeg fer o eiddo Parker i'r perwyl yn ddigon am byth.

Teimlwyd cymmaint o anhawsdra i ddod o hyd i'r fath *bassage* yn ei weithiau, fel, er i mi ofyn i Mr. E. am dano yn fuan ar ol y Cwrdd, ac iddo yntau addaw ei ddanfon i mi pan ddelsai o hyd iddo, nid wyf wedi ei gael hyd y fynud hon.

Oblegyd rhyw achos neu gilydd, nas gallaf fod yn sier pa beth, er nad wyf heb sail i dybied fod gan ddarlleniad helaethach o ysgrifeniadau Parker ryw gymmaint a fyno â'r mater; ond oblegyd rhyw achos neu gilydd, erbyn fod Mr. E. yn dyfod allan a'i lythyr yn y rhifyn diweddaf mae cyfnewidiad

mawr wedi dyfod drosto, ar ol misoedd o ddistawrwydd, gofyna genad Gol, yr Ymofynydd (tud. 257) "i brofi, os y gall, ei haeriad yn y Cwrdd Blynyddol, sef fod Parker yn galw ei hun yn Theist, ac mewn canlyniad yn gwrthod yr enw Cristion." Dywed yn mhellach "ai dyma'r geiriau a arferais yno ai peidio, nis gwn; ond rhywbeth i'r perwyl yna oeddwn yn fwriadu ddywedyd." Bu yn syn ac yn flin genyf ddarllen y geiriau yma o eiddo Mr. E. Fe wel pob dyn ar ol moment o ystyriaeth mai nid gwahaniaeth mewn geiriau yn unig sy rhwng yr hyn a ddywedodd yn y Cwrdd Blynyddol a'r hyn a wed yn awr. Nid "*rhywbeth* i'r perwyl" sydd arnom eisieu ei gael ond ail-adroddiad cywir, cadarnhad neu wadiad pendant o'r hyn a wedodd yn y Cwrdd. Eisieu deffiniad clir sydd arnom o'r tir y mŷn Mr. E. ei gymeryd. Rhwng gosodiad Mr. E. yn y Cwrdd Blynyddol a'i osodiad yn ei lythyr y mae byd o wahaniaeth. Wele hwynt yn ochrau eu gilydd, a barned pawb.

Yn y Cwrdd, Parker oedd yn gwrthod yr enw Cristion a Mr. E. yn ei ganmol am hyny. Dyna *fater o ffaith*, yn cael ei roi fel o enau Parker. Yn *awr*, dywed fod Parker yn galw ei hun yn Theist, ac *mewn canlyniad* yn gwrthod yr enw Cristion. Dyna *fater o opinion* neu gasgliad ar du Mr. E.

Wrth reswm y mae gan Mr. E., fel pob dyn arall, berffaith hawl i ffurfio opiniwn; nid oes neb a achwynai am hyn. Ond ni ddylai newid ei dir, a dodi un peth yn lle'r llall.

Eto ym mhellach; a chymeryd yn ganiataol mai yr ail osodiad uchod yw yr un y mŷn Mr. E. o hyn allan ei arddel, nid yw yn ymddangos i'm meddwl i fod ymresymiad Mr. E. yn deg. Oblegyd fod Parker yn pregethu Theism —ei fod yn galw ei hun yn Theist nid wyf yn awr yn cofio ei weled yn un o'i weithiau, er nas gwadaf ei fod i'w gael ynddynt—gwel Mr. E. yn dda i dynu'r casgliad ei fod yn gwrthod yr enw Cristion, ac yn dewis yn hytrach yr enw Theist. Yn awr pregethai Parker Theism am ei bod yn ei farn ef y wedd uwchaf o Grist'nogaeth *(the highest phase of Christianity)*; am ei bod ei ddeongliad *ef* o'r hyn oedd Crist'nogaeth bur; yn gywir, dybygwn i, fel ag y mae Undodiaeth i Mr. E. ei ddeongliad yntau o'r hyn yw Crist'nogaeth bur. Nid oedd Parker yn credu yn y cenedliad gwrthiol; troad y dwfr yn win; bwriad allan gythreuliaid; ei waith yn danfon y lleng cythreuliaid i'r moch, a'r rheiny yn rhuthro dros y dibyn ac yn boddi; crinad y ffigysbren ddiffrwyth, y darn arian yng ngheg y pysgodyn, beb fyned dros yr holl wyrthiau eraill. Nid oedd yn eu credu ac nid ystyriai hwynt, a hyny, sylwer, ar ol ymchwil ddyfal a phan wedi darllen a meddwl cymmaint yn debyg a neb erioed pwy bynnag ar y pwnc; nid ystyriai hwynt yn perthyn i Grist'nogaeth bur. Tra y mae Mr. E. yn ol y deallaf fi yn eu derbyn un ac oll ac yn eu hystyried yn rhan a chyfran o Grist'nogaeth bur. Ymddengys i mi fod Parker a Mr. E. yn un yn hyn: mai ymofyn am Grist'nogaeth bur, am y cnewyllyn sylweddol a wna'r ddau. Chwiliant drostynt eu hunain a phenderfynant. Dewisa Mr. E. yr enw Undodiaeth fel yn sefyll iddo ef am yr oll ag sy'n grefydd bur a dihalogedig. Dewisa Parker Theism—nid fel ag i gau allan Undodiaeth, llawer llai Crist'nogaeth—fel yr enw mwyaf priodol i sefyll iddo yntau am yr oll ag sy'n grefydd bur a dihalogedig. Gwed Miss Cobbe,, golygydd yr argraffiad Seisnig o'i weithiau, yn bendant yn y dyfyniad y gesyd Mr. E. gymmaint o bwys arno, "nad oedd yr enw Theism *yn gwrthdaro ond atheistiaeth yn unig*, ac nid i'w ddeall fel yr hen ddeistiaeth i arwyddo gwrthodiad Crist'nogaeth." Cwyna Mr. E. (*Note*

tud. 276) nad oedd Theism Parker yn cynwys dim o Grist'nogaeth ond yr hyn a welai ef yn gymhwys." Yn wir! Mae yn demtasiwn rhy gryf i mi i beidio a gofyn yn barchus a gynwys Undodiaeth Mr. E. ragor o Grist'nogaeth nag a wel *ef* yn gymhwys? Cwyna hefyd "y gwnai Parker hyn â phob crefydd arall, Mahometaniaeth, Budhism, &c., gan adael y gwaeledd ar ol." Druan o Parker! Dyma gyhuddiad hollol newydd yn ei erbyn, ac nis gwn yn iawn pa fodd y mae osgoi hwn! A fuasai yn nes i'w le, tybied, trwy bigo allan a mabwysiadu *gwaeleddau* y gwahanol grefyddau hyn, gan adael o'r neilldu yr hyn a welai *yn gymhwys ynddynt?* Neu ynte a fyn nad yw yn iawn i ddyn ddysgu gan bawb, a helpu ei hun i fywyd uwch trwy bob cymhorth a ddichon gael oddiwrth bob crefydd yn yr holl fyd?

Ar ol gwneyd y dyfyniad uchod o Miss C., dywed Mr. E. (tud. 276): "Felly fe wel y darllenydd fod Miss C. yn dywedyd mai'r enw y mae Parker ei hun yn ddewis fel y mwyaf cymhwys i'w syniadau crefyddol ef yw Theism, nid Theism Grist'nogol, ond Theism yn unig; ac felly mae'n ymddangos i mi fod yr enw Cristion yn cael ei droi o'r neilldu, ac un arall o well yn cael ei ddewis yn ei le." Mae yn eithaf amlwg, pe heb genym dystiolaeth Miss C. yn ei llythyr at Mr. E., nad oedd Parker, nac yn galw ei hun, nac yn dewis cael ei alw gan eraill, yn Gristion yn ystyr arferedig *dduwinyddol* y gair. Bu trwy ei oes yn siarad ac yn ysgrifenu yn erbyn y Grist'nogaeth dderbyniedig gan y lliaws. I hyn yr ymgyflwynodd, a llafuriodd gyda hyn y tuhwnt i ddim arall. Ond attolwg, oni ellir dweyd yr un peth i raddau am Mr. E.? Dywedaf i *ryw raddau*, oblegyd er cymmaint dysg a galluoedd Mr. E., ac er mor ddiflin ei lafur, gwn y maddeua i mi am ddweyd nad yw eto wedi dweyd na gwneyd ond ychydig ar y maes hwn mewn cymhariaeth i'r hyn a wnaeth Parker yn ei oes fer. Ond o fewn terfynau neillduol ymddengys i mi fod ymdrech Mr. E. fel eiddo Parker yn cael ei chyfeirio yn erbyn y Grist'nogaeth boblogaidd, ac nad yw Mr. E. mwy na Pharker am alw ei hun yn *Gristion* yn yr ystyr *hyn.* Geilw Mr. E. ei hun yn Undodwr, heb gyfrif ei fod wrth hyn yn diarddel yr enw Cristion. Os goddefir i mi i osod enw Mr. E. i mewn yn lle Parker, ac Undodiaeth yn lle Theism, yn y dyfyniad uchod ceir cyfle i farnu pa mor deg yw'r ymresymiad: "Felly fe welir mai'r enw y mae Mr. E. ei hun yn ei ddewis fel y mwyaf cymhwys i'w syniadau crefyddol ef yw Undodiaeth, nid Undodiaeth Grist'nogol, ond Undodiaeth yn unig; ac felly mae'n ymddangos i mi fod yr enw Cristion yn cael ei droi o'r neilldu, ac un arall o well yn cael ei ddewis yn ei le." Os tâl y dull hwn o ymresymu yn ei gymhwysiad at Parker, gwna, dybygaf fi, yr un ffunud yn ei gymhwysiad at feirniad Parker.

Mor bell ag y gwn i, tybiwyf fod Mr. E. yn agos ar ei ben ei hun yn ei waith yn dal fod Parker yn gwrthod neu yn ystyried ei fod, wrth bregethu ac ysgrifenu yr hyn a wnai, yn gwrthod, yr enw Cristion. Fel enghraifft, mae Mr. Higginson o Abertawe, gwr nid anghymhwys i roi barn ar bwnc o'r fath hyn, yn y bregeth alluog a draddododd pwy ddydd ym Merthyr, yn dweyd yn groew y galwai Parker ei hun yn Gristion, tra yn ei feio am hyn.*

* That great, good, and brave man, Theodore Parker, never, perhaps, did an unmanly thing except in showing himself grieved to be taken at his word respecting the "absolute religion," and querulously insisting on being called a Christian. [Unitarian Herald, No. 133, p. 369]. Rhydd Mr. H. y *ffaith* yn gywir, ond nid yw yn cyduno o ran opiniwn â Parker. Nid yw yn ystyried mai yr un yw Crist'nogaeth *Crist* yn ol Parker â'r hyn a eilw mor fynych, *the "absolute religion."*

Ond dichon y dywed Mr. E. *na ddylasai* Parker fyntumio ei hawl i'r enw. Wel, gwnaed ei *gase* allan. Tybia y mwyafrif o Grist'nogion (a elwir felly) *na ddylai* Mr. E. alw ei hun yn Gristion, ond tybia ef i'r gwrthwyneb, a mawr dda iddo. Ond nid *na ddylasai* Parker alw ei hun yn Gristion oedd y gosodiad yr ymgymmeroodd Mr. E. ei brofi. Ymddengys i mi fod Mr. E. ar fath o raddfa symudol *(sliding-scale)*.

Y radd gyntaf oedd fod Parker wedi ymwrthod â'r enw Cristion fel mater o ffaith, Mae yn barod wedi llithro dros y radd yna.

Yr ail radd oedd, y galwai Parker ei hun yn Theist, ac mewn canlyniad, fel mater o opiniwn ar du Mr. E., ei fod yn ymwrthod â'r enw Cristion. Mae Mr. E. heb *lwyr* lithro dros y radd hon. Ond y mae argoelion amlwg yn ei lythyr ei fod ar ei symudiad i'r radd nesaf.

Y drydedd radd yw, os nad *oedd* wedi ymwrthod â'r enw Cristion y *dylasai* wneyd hyny. Nid anniddorol yw gwylio disgyniad Mr. E. ar hyd y *sliding-scale* hon. Bydd ein llygaid arno. Diau na fydd yn anfoddlawn i ni ymddwyn ato yn ol y rheol: a pha fesur y mesuroch yr adfesurir i chwithau.

Mae cyfiawnder yn galw am un gair ym mhellach cyn terfynu, gyda golwg ar ddyfyniadau Mr. E. o Parker. Mae rhyw ystyriaeth o'r fath a ganlyn, yn ol fy meddwl i, yn deilwng o sylw. Mae Parker yn awdwr nas gŵyr y Cymro uniaith ddim am dano, oddigerth yr hyn a gaiff yn y dyfyniadau gwasgaredig ac anghysylltiadol a wna Mr. E. Mae yn resyn fod enw dyn mor fawr ac mor wir deilwng ar bob ystyr ag oedd Parker yn cael ei lusgo i mewn mor ddiseremoni, ac ynglŷn â'r fath gwestiwn *technical* ag yw "Beth yw Cristion?" Nid yw'r dyn yn yr hyn ag oedd yn cael ymddangos. Gwneir cam ag ef fel ag y gwnelid âg unrhyw awdwr arall, trwy hela cymalau yma a thraw a blith ei ysgrifeniadau, a'u dodi at eu gilydd mewn trefn i Mr. E., fel yr ymddengys i mi, i farchogaeth *hobby* neillduol o'i eiddo. Pigo bricen oddiyma ac oddidraw, a'r brics lleithaf a mwyaf dilun yn ol ei farn ef a wna Mr. E. i'w rhoi i'r cyhoedd fel samplau o'r holl adeilad; a bydd y ddarllenydd uniaith o dan orfod i ffurfio barn am Parker, fel dyn ac fel awdwr, oddiwrth y dyfyniadau hyn. Nid wyf yn awr am roi barn ar y dyfyniadau ynddynt eu hunain o ran y golygiadau a gynwysant. Ond hyn a ddywedaf mewn cyfiawnder i Parker: a dilyn y fath gynllun â hwn o ddyfynu, mentrwn i i wneyd Milton yn wawd, a chreu adgasrwydd ym mhob meddwl pur at Shakspeare; ïe, mwy na hyn, byddwn yn barod ar fynud o rybudd i hèl darnau yma ac accw o'r Beibl ei hun, ar gynllun Mr. E., a godent wrid porfforaidd i wyneb pob dyn o berchen teimladau moesol pur, ac a roent y lliw ar y Beibl ei fod y llyfr bryntaf ac iselaf ar wyneb y ddaear.

Rhaid i mi ddweyd hyn hefyd, fod Mr. E. yn gwneyd mwy o fwstwr, wedi ei wneyd eisioes, ynghylch *pa beth y galwai'r dyn mawr hwn ei hun* nag a wnaeth Parker erioed. Yr oedd ganddo waith canmil mwy pwysig nag ymryson ynghylch enw o fath yn y byd, ac ymaflodd yn ei waith fel merthyr. Mae ei fywyd llafurus, hunan-ymwadol, santaidd a gwrol yn dysgu gwers llawer uwch i Mr. E. ac i minau nag ymgeeri am yr enw hwn, neu'r enw arall. A fynno brawf o hyn darllened ei weithiau, darllened hanes ei fywyd.

Llandyssul, Rhagfyr 25*ain*, 1863. WILLIAM THOMAS.

Yn ofer y mae y dynion hyny yn gweddio am gael maddeuant i'w pechodau, y rhai nid ydynt yn ceisio attal pechod trwy weddi, hyd yn oed pob pechod neillduol, trwy weddi yn erbyn pob pechod.—HOOKER.

ENWOGION SIR ABERTEIFI.

Llythyr II.

Edward Richard.—Mae Swydd Ceredigion yn orlawn o olion hynafiaethol, ac y mae enwau llefydd ynddi yn swynol neillduol i'r bardd a'r llenor Cymreig. Ychydig i'r gogledd o Aberystwyth, gerllaw pentref y Borth, mewn corwgl yng ngored Elphin, y cafwyd baban tlws, a drodd allan wedi hyny yn "Daliesin Ben Beirdd," ac y mae ei feddrod ef gerllaw pentref Taliesin hyd y dydd hwn. Wrth gyfeirio oddiyno i'r dwyrain, a myned heibio Glanffraid, genedigle y dysgawdwr uchelfri Edward Llwyd, awdwr yr "Archaiologia Brittanica," yna dewir i Broginin, anneddfan a fytholwyd mewn enwogrwydd fel preswylfod Dafydd ab Gwilym, y "Prydydd a'i gywydd fel gwîn :" eto yn Llanbadarn-fawr, eglwys blwyfol Aberystwyth, y gorwedd y bardd a'r hynafiaethydd dyfnddysg Llywelyn Ddu. Ychydig nes i lawr i'r deau cyrhaeddir Gwenhafdre neu Gymandref, lle y magwyd yr athrylithfawr Ieuan Brydydd Hir ;—yna dewir i Ystradmeurig, treflan a'i henw yn hysbys o Fon i Fynwy fel cartrefle tawel gwrthddrych ein hysgrifell, sef yr hyglod Iorwerth Risiart, awdwr clasurol y "Bugeilgerddi" diail.

Edward Richard a anwyd ym mhentref Ystradmeurig, Ceredigion, Mawrth, 1714. Yr oedd ei rieni yn lled isel yn y byd. Dilledydd oedd ei dad, a'i wraig, mam Edward, a gadwai dafarndŷ bychan, lle yr oedd hi yn adnabyddus dan yr enw "Hen Wenllian," neu "Modryb Gwen," fel ei gelwid gan ysgolorion Ystradmeurig. Yr oedd ganddynt fab arall o'r enw Abraham, yr hwn ar ol treulio ychydig amser yn athrofa Henffordd, ac ysgol rammadegol Caerfyrddin, a aeth i Rydychain, fel y gwelir oddiwrth ei law-ysgrif mewn llyfr yn "Llyfrgell Ystradmeurig" fel hyn—"Abraham Richard, Jesus College, Oxford." Pryd hyn yr oedd yn 19 oed.

Cyfranodd lawer ei hun at ei draul yn y brif-ysgol trwy ddysgu ychydig efrydwyr yn eglwys Ystradmeurig pan nad oedd ei ddyledswyddau yn ei alw i Rydychain. Dan ofal ac hyfforddiad ei frawd yn ddiamheu y gosododd Iorwerth sylfaen y wybodaeth helaeth a feddai yn yr ieithoedd gwreiddiol a dysgedig, yr hon a barodd iddo ddysgleirio mor hynod yng nghanol-ddydd ei fywyd. Dywed un o feirdd mwyaf doniol-gamp yr oes hon, sef "Cynddelw," am dano fel y canlyn—"Mae Caniadau Byrion, sef Bugeilgerddi y diweddar Iorwerth Risiart o sir Aberteifi yn rhagori cymmaint ar y testun fel nad oes neb hyd yn nod yn yr oes hon wedi dringo yn agos ato ; ïe, mewn gair, y mae ei 'Fugeilgerddi' fel pe baent ar gopa craig fawr heb i'r un bardd anturio dyfod yn agos atynt." Dios mai y diweddar Barchedig D. Lloyd, o Ffynllefrith, yn ei "Hunan-fyfyrdod," ydyw y nesaf ato ar y mesur hwn. Pan geisiai efe yr awen, nid ymgyfarfyddai â hi ar lethrau breision Parnassus a Pindus, ond ar gopa uchel Plinlymon neu Gader Idris ; canys ymddangosodd ynddo yn foreu ddawn tra hynodol at farddoniaeth Gymreig, ac fe ddywedir fod y fath swyn yng nghynnyrchion cyntaf ei awen, fel yr arferai yr hen bobl ddifyru eu gilydd wrth eu hadrodd a'u canu, er na fynai efe eu cyfaddef yn ei henaint, ac ni welwyd mo honynt ym mhlith yr ysgrifeniadau a adawyd ganddo ar ei ol.

Ar ol marwolaeth ei frawd, yr hwn a gollodd ei fywyd trwy gwympo yn ddamweiniol oddiar graig a elwid "Craig Colomenod," danfonwyd Edward i ysgol rammadegol Caerfyrddin, yr hon oedd y pryd hyn dan arolygiaeth y

Parch. Mr. Maddox. Oddiyno fe'i symudwyd i Bontygido, ym mhlwyf Llanarth, Ceredigion, lle y bu am ryw ychydig amser dan ofal Mr. Pugh, boneddwr ag oedd yn enwog am ei wybodaeth o'r iaith Roeg. Ni wyddys pa hyd y cafodd Edward y fraint o efrydu dan y boneddigion uchod.

Yn fuan ar ol hyn cafodd ei roesawu gan deuluoedd John Lloyd, Ysw., o Ffosybleiddiaid, a Richard Stedman, Ysw., o Fonachlog Ystrad Fflur, y rhai oeddynt bob amser yn barod i'w dderbyn yn garedig. Mrs. Stedman, merch i William Powell, Ysw., o Nanteos, yr hon a ailbriododdd â Syr Herbert Lloyd, o Ffynonbedr, (Peterwell) ger Llanbedr, boneddiges synwyrol ac athrylithgar, a roddodd iddo bob cefnogaeth, ac felly dechreuodd cyfeillach yr hon a fwynhaodd hyd ddiwedd ei oes.

Yn y flwyddyn 1734, neu o bellaf yn 1735, yr agorodd Edward Richard yn gyntaf yr ysgol rammadegol yn Ystrad-meurig, yr hon yn raddol a gyrhaeddodd enwogrwydd. Ond tra yn gweled cynnydd beunyddiol yn rhif ei ysgolheigion, ac helaethiad cyson o'i fri ei hunan, gwnaeth benderfyniad yr hwn nis gallasai dim ond meddwl cyfiawn ei annog, a dim ond ysbryd eofn beri iddo ei gyfaddef a'i ddilyn. Gollyngodd ymaith ei holl ysgolheigion yn ddisymwth, gan ddywedyd yn agored nad oedd ei wybodaeth yn ddigonol i'w addasu i wneyd cyfiawnder â hwynt, a rhaid oedd iddo helaethu ei ddysgeidiaeth ei hunan cyn cynnyg i hyfforddi ereill.

Wedi iddo wneyd y penderfyniad hwn ymroddodd i efrydu yr uchel awduron Groeg a Lladin ; ac am ysbaid dwy flynedd cyfodai am bedwar o'r gloch yn y boreu i fyned i eglwys Ystrad-meurig, heb gyfaill na chydymaith ond y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), bardd ac henafiaethwr, yr hwn a fu unwaith yn ysgolor iddo. Parodd yr ymddygiad cyfiawn a chydwybodol hwn deimlad dwys o'i blaid ; a phan yr ail-agorodd ei ysgol, tua'r flwyddyn 1746, y fath oedd ei enwogrwydd fel y derbyniodd lawer o efrydwyr o holl barthau y Dywysogaeth.

Yn y flwyddyn 1745, y Parch. Thomas Oliver, periglor Dudley, gwr o Ledrod, plwyf cyfagos i Ystrad-meurig, a adawodd yn ei ewyllys dyddyn a elwid Ynysygarn, ynghyd a phedwar cant o bunnau i gynnal ysgol yn swydd ei enedigaeth er mwyn addysgu nifer bennodol o fechgyn tlodion.

Rhoddwyd i John Lloyd, Ysw., Ffosybleiddiaid, a'i etifeddion, yr hawl i bennodi meistr i'r ysgol. Ond diddymwyd y rhodd hwn o achos rhyw bynciau cyfreithiol ; ond Mrs. Dorothea Oliver, ei weddw, a gyflawnodd fwriad ei gwr ; a thrwy ei rhadlonrwydd hi neillduwyd y tai a'r tiroedd a ganlyn at y perwyl hwnw :—Briwffosydd a Ffosypilcorn, ym mhlwyf Llanrhystid ; Pantyscuthan a Blaeniago, ym mhlwyf Llandyssul ; Dol-hwthyn a gardd yn nhref Tregaron a Swyddffynnon ; tŷ a chae bychan ym mhlwyf Lledrod ; ynghyd ag Ynysygarn, yn yr un plwyf.

Y meistr cyntaf a bennodwyd i ysgol newydd Ystrad-meurig oedd Edward Richard, a hyny trwy gymwynas ei noddwr a'i gyfaill Mr. J. Lloyd. Wedi derbyn hyn o gefnogaeth aeth ymlaen gydag awydd newydd a llwyddiant ychwanegol. Parhaodd i fyw yn yr un dull dirodres a chynnil ag o'r blaen, ac o radd i radd daeth yn feddiannol ar ychydig arian.

Yn y sefyllfa hon ffurfiodd y bwriad gwladgarol o sefydlu ysgol rammadegol arall er llesoli plant ei gymydogion tlodion ei hunan a'u holafiaid ; ac yn y flwyddyn 1754 neillduodd dyddyn at waddoli ysgol trwy weithred yn Llys y Canghellwr. Yn 1771, trwy weithred gyffelyb, neillduodd amryw diroedd

ereill at yr un achos; ac yn 1774 gwnaeth weithred newydd yn cynnwys darpariadau er mwyn gochelyd camddefnyddiad o'i haelioni. Enwau y tir-oedd y rhai a roddodd y modd crybwylledig sydd fel y canlyn:—Brynperfedd ym mhlwyf Ystradmeurig; Tymawr, Penygwndwn, a Bryngarw, ym mhlwyf Lledrod; a Phrygnant, ym mhlwyf Llanfihangel-y-Croyddin.

Pennodedd Esgob Tyddewi, Iarll Lisburne, William Powell, Ll. D., Nanteos; J. Lloyd, Ysw., Mabwys; a Thomas Hughes, Ysw., Hendrefelen, a'u hetifeddion i fod yn ymddiriedolwyr *(trustees)*.

Cadarnhaodd trwy ei ewyllys, dyddiedig Chwefror 28, 1777, fod yr holl roddion uchod i fod mewn grym, ac ychwanegodd atynt ei lyfrau a'i lyfrgell, y rhai a roddodd i'r ysgolfeistr am yr amser, a thrwy ei ganiatad ef i'r ysgolheigion. Yn yr ysgrif hon y ceir yn ddamweiniol brawf o'i deimladau mynwesol a chariadus tuag at drigolion pentref ei enedigaeth: wrth roddi melin a brynasai yn ddiweddar i'w gyfaill, J. Lloyd, Ysw., Mabwys, gorchymynodd iddynt hwy, sef tlodion ei ardal, gael hawl wastadol i wneyd defnydd o honi heb dalu mwy nag haner y doll gyffredin.

Ychwanegwyd yr at-ddodiadau canlynol at ewyllys Mr. Richard, ac y mae yn lled debyg mai efe ei hunan a'u hysgrifenodd.

"*At fy Nghymunweinyddion*,—Fy ewyllys yw llesoli yr oes bresenol yn gystal a'r cenedlaethau dyfodol. Gadawer i gariad orthrechu ar hunanlesâd. Gwerther fy meddiannau personol yn y dull mwyaf manteisiol, a phriodoler yr arian i brynu llyfrau i'r llyfrgell. Rhoddweh fy nillad a'r bwydydd a fyddont yn y tŷ i'r tlodion. 'Gwneler hyn gyda phwyll.' 'At fy Olynyddion yn yr ysgol, —Nid ydyw'r ysgol i fod yn segurswydd; rhaid i chwi weini yn gyson, ac ennill eich bara trwy lafur a diwydrwydd. Hyn yw fy ewyllys; gobeithiaf y caiff ei hufuddhau. Gan hyny cyflawnweh eich swydd yn ffyddlon, gan wybod eich bod yn atebol am eich ymddygiad, nid yn unig i'r ymddiriedolwyr ond hefyd i'r Hollalluog. Cadwer yr ysgol a'r llyfrgell mewn cyflwr da, a gwellhaer hwynt hyd eithaf eich gallu.

"Edward Richard."

Bu yr Athraw dyfnddysg, y Bardd penigamp, y dyngarwr a'r gwladgarwr hyglod Iorwerth Risiart, farw ar y pedwerydd o Fawrth, 1777. Claddwyd ef yn eglwys Ystrad-meurig, ar ochr orllewinol y pulpud, yn agos i'r mur gogleddol. Gosodwyd careg i'w goffadwriaeth barchus ar fûr y llyfrgell, ar yr hon y mae y geiriau canlynol yn gerfiedig:—

"Hanc Bibliothecam fundavit, librisque completavit,

EDWARDUS RICHARD;

Vir eximii ingenii, eruditionis ac diligentiae;

Qui arduo ludimagistri munere per 45 annos summa cum

laude perfunctus est.

Hanc insuper Scholam annuis donavit reditibus in

pauperum puerorum institutionem:

Quae, inter illustrissimos viros, qui humani generis fuerunt

EUERGETAI,

Nomen ejus merito collocabunt.

Quarto nonas Martii anno ætatis 63, Christi 1777, Oblit."

CYWYDD.—MARWNAD IORWERTH RISIART,

GAN DAFYDD IONAWR.

Ar gwir a glywir, gwae'n gwlad!
Gwae finau o'r gofyniad!
Farw gwr o fawr ragoriaeth?
Oh, rhywir! ni fu wir waeth.
O Iorwerth, y gwr certh cu,
Gloewddoeth, pan glybum gladdu
Dy harddwch mewn llwch a llaid,
Griddfanodd gwraidd fy enaid.
Mae achos mawr i'm ochi,
Wr rhagorol, ar d' ol di;
Canwaith ydd wyf mewn cynhwrf,
Meddalu a llaesu'n llwrf.
Gwae Gymru gladdu y Glod!
Ei hoenus athraw hynod!
Gwae arw gur, gwae oer gerydd!
E ddarfu, e ddarfu 'i ddydd!
Minau pe b'ai'm awenydd
Odidawg oreurawg rydd
Gwrdd oleu gerdd a eiliwn
O fawl i'r haeddawl wr hwn.
Fe wyddai fu o addysg,
Holl barthau dyfnderau dysg.
Ac ar ol ei farwolaeth
E fydd awenydd yn waeth;
Rhwng ynfydion gweigion gau,
Hi dâwodd yn y Deau;
Hi doddawdd megys diddim,
Hi fu, hi ddarfu yn ddim.
Nyni'n wir a wnawn eiriau
Ceinion, pur weigion i wau;
Fe'n unig, fwyn awenydd,
Eiliai'r gân ddyddan i'w ddydd
Ragorol rywiog araith,
Synwyrol, sylweddol waith.
Ei gerddi enwog eurddoeth,
Tra b'o llên ac *awen* goeth,
A fyddant yn rhyfeddawd:
Diwedd eu bri fydd dydd brawd.
Yna yr enyna'r nef
Wen ganaid,—Gwaith Iôn gwiwnef
A'i lwysgyrdd a gyd-losgant,
Ar unwaith yn oddaeth ânt!
I ddofion blant amddifad
Bu'n noddwr, bu'n dwr, bu'n dad,
Gonest galon ac wyneb
Ni wrthodawdd nawdd i neb.
Da fuost yn dy fywyd,
Da beunydd a fydd dy fyd,
Y gwr gan Dduw a garwyd
Yn Sion yr Iôn yr wyd:
Y Duwdod wrendy d' awen
Yn entrych y nef wych wen.
At y pêr nifer nefol
Drwy nerth Naf, deuaf ar d' ol.

Tybygaf fod yr hybarch Edward Richard yn radd o Undodwr—caiff pennill neu ddau o'i eiddo brofi hyny, sef y canlynol:—

"Er syrthio'r dywarchen i'r ddu oer ddaearen
Hi gyfyd fel haulwen yn llawen o'r llwch,
I'r sawl sy'n troi ato, mae bywyd heb wywo
Ym mreichiau ei Dad iddo, a dedwyddwch.

Ymostwng yn astud i ffynnon y bywyd,
Ac ochain am iechyd i'th glefyd a'th glwy;
E fydd, y mae'n addo, i'r gwas sy'n ei geisio
Dan wylo ei gwyn wrtho, 'n gynhorthwy."

Nac amheu, gwna gymod â'th Dad a'th gydwybod,
Yn ddistaw dy ystod heb 'nabod i neb:
Drwy ddiwyd weddio, diwegi a diwygio,
Lle b'o fe gâr wrando gwiriondeb.

Canwyd gan IORWERTH RISIART.

Ystradmeurig, Ionawr 1, 1776.

Cellan. *(I'w barhau.)* TEIFIWYSON.

PARKER A'R ENW CRISTION.

MR. GOL.—Aethom dros fyd o brofion, ond nid y cwbl o lawer o ffordd, i brofi fod Parker wedi rhoddi i fynu Iesu y Crist, fel arweinydd. Cawsom fod Crist. yn ol ei farn *ef*, yn dysgu athrawiaethau cyfeiliornus cynddrwg os nid gwaeth nag atheistiaeth ei hun, ac felly nad possibl yw peidio dyfod i'r casgliad nad Cristion oedd. Cawsom hefyd fod yr *absolute religion* yn gosod y fath athrawiaethau i orphwys yn dragwyddol; fod gan Grist ei "gyfeilornadau, ei ffolinebau, ei feiau, ac hyd yn oed ei bechodau," ac felly nad yw y Crist *hanesyddol* yn sier ddim yn addas i Parker;—cawsom "fod eraill wedi myned ymhellach nâ Christ," ac felly hwy yw'r arweinyddion, ac nid efe;—fod Crist wedi camsynied ei hun yn lle'r gwaredwr oedd y genedl Iuddewig yn ddisgwyl,—nad oes gwirionedd na ffaith yngwyrthiau, rhyfeddodau anferth *(monstrous)* yr efengyl;—fod yn rhaid i bob dyn fod yn Grist iddo ei hun neu beidio bod yn Gristion," yn hytrach neu beidio bod yn Grist debygaf; cawsom "fod gan y *Crist mewnol* hyn fwy i ddywedyd nag a ddywedodd y Bibl ac na wyddai y Crist hanesyddol am danynt;" ac felly ar y Crist mewnol hwn y dylid

gwrando ac nid ar y Crist hanesyddol, Iesu o Nazareth :—cawsom o'i enau ef ei hun "fod trafaelu mewn *railway* càr yn fwy na cherdded ar y dwfr," er ei bod yn well i Pedr, un diwrnod, i gael Iesu i gydio yn ei law ar y môr na holl *railway cars* y byd i gyd ;—cawsom "fod newyddiadur yn well na llefaru a thafodau;—do, cawsom hefyd fod yr eglwys newydd a'i phroffwydi ysbrydoledig ganddi yn awr, yn gystal a chynt, ac fod aelodau hon i edrych YMLAEN ac NID YN OL am arweinyddion," a gwyddom nad oes modd cael gafael yn y Crist hanesyddol, Iesu y Crist, heb fyned yn ol dros ddeunaw cant o flynyddau: felly dyma addefiad teg fod ein Crist ni yn cael ei roddi i fynu; y mae'n rhaid edrych YMLAEN am arwyddion, ac nid rhyfedd, gan fod y Crist mewnol yn gwybod mwy nag ef; nid yw gorchestion ein Crist ni ond bach ac isel mewn cydmariaeth i ymgais y Crist mewnol yn yr oes hon. Cawsom o enau Parker ei hun "fod gan Iesu o Nazareth ei Dduw a'i ddiafol hefyd; ei nefoedd a'i uffern hefyd, a chelwydd yw'r fath athrawiaethau" medd Parker. A all Parker fod yn ddisgybl i Grist mwyach? Amhossibl i'm tyb i. Nid oedd achos iddo ddywedyd mewn cynifer o eiriau, "Nid Cristion wyf fi;" y mae wedi gwneuthur hynny yn fwy effeithiol o lawer. Gallasai rhyw gyfaill iddo ddywedyd fod coll y wasg yn yr ymadrodd uchod, fod y gair bach, "Nid," wedi ei ddodi i mewn, naill ai yn fwriadol neu yn anfwriadol, ac wed'yn fod yr ymadrodd yn sefyll fel hyn, "Cristion wyf fi;" ond ni all na choll na chollion y wasg ei achub ef yn awr, gan fod y fath haeriadau a'r uchod yn britho ei gyfrolau drwyddynt oll. Gwyddoch chwi, Mr. Golygydd, a phawb o ddarllenwyr cysson yr YMOFYNYDD oddiar ei gychwyniad cyntaf, fy mod i wedi esgrifenu llawer yn erbyn trindod yn undod erioed, ac nid wyf yn tybied fod fawr amheuaeth ar feddwl neb nad wyf yn gwrthol yr enw trindodwr, er nad wyf erioed wedi dywedyd mewn cynifer o eiriau, "Nid Trindodwr wyf fi." Nid oedd angen wrth hyn, gan fod fy ysgrifeniadau yn ddigon o honynt eu hunain. Felly yn gymwys nid oedd achos i Parker ddywedyd yn bendant ei fod yn gwrthod yr enw Cristion; y mae ei ysgrifeniadau yn ddigon. Ond cymerwch un difyniad yn rhagor cyn yr elom at yr ail ran sydd i fod dan ein sylw. Y mae Parker ar tud. 190 o'r Gyf. I. o'i waith gan Miss Cobbe, yn dywedyd fel hyn, "Nid yw Cristnogrwydd yn ceisio gan ddyn i alw ei hun yn Gristion." Beth yw hyn ond esgusawd dros roddi i fynu yr enw Cristion. Nis gallaf fi ar ol y difyniadau blaenorol edrych arno yn fy myw mewn un goleu arall. Felly y mae'n rhoddi yr *hen* Gristion i fynu sy'n deilliaw oddiwrth Iesu y Crist, ac wedi rhoddi i ni esgusawd dros hyny; ac os yw ef am gael ei alw yn Gristion yn yr ystyr *newydd*, yn tarddu oddiwrth y Crist *mewnol*, mwy gwybodus nâ'r Crist hanesyddol bach, isel, a phechadurus, pob peth o'r goreu, ond i ni ddeall ein gilydd. Yn awr ni a awn at

Yr ail beth addawsom, sef barn Parker ar y Bibl, ei *ysprydoliaeth* a'i *ddatguddiad*, ei *wyrthiau*, ac yn enwedig yr *adgyfodiad oddiwrth y meirw*. Y mae rhai o'r pethau yma wedi ymwthio i'r golwg eisioes er ein gwaethaf, megis adgyfodiad a gwyrthiau Crist, y rhai ydynt yn cael eu trin gan Parker yn y modd mwyaf gwawdlyd. ac "nid yw ysprydoliaeth wyrthiol ond breuddwyd y twylledig neu'r twyllodrus;" felly gwnaiff hyn leihau ein gwaith i ryw raddau. Wel, beth am y Bibl, Parker? Cyn dechreu ar difyniadau goddefer i mi ddywedyd yma eto fod Parker weithiau yn siarad yn uchel iawn am dduwioldeb uchel Moses a'r proffwydi, Crist a'i apostolion, ond am eu duwinyddiaeth y mae'n siarad yn y modd mwyaf diystyrllyd. Y sylw nesaf yw hwn, y bydd y difyniadau yn llawn a lliosog oherwydd dau reswm; yn gyntaf am nad yw ei waith gyda nemawr o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, onide gwnai cyfeiriadau y tro, lle y mae'n rhaid difynu yn awr: yn ail, yr wyf am ddangos mai nid rhyw feddwl neu ymadrodd damweiniol yw yr hyn sydd dan ein sylw; ond y maent yn ymwthio i'r golwg ymhob rhan o'i waith lle y mae cyfleusdra yn ymgynnig i hynny. Yn awr at y difyniadau. "*Theism, Atheism, and The Popular Theology*," tud. 60, "Edrychwch ar y meddylddrych am Dduw. Yn y dduwinyddiaeth boblogaidd y mae Duw yn cael ei osod allan fel Duw meidrol ac amherffaith Ni ddywedir felly mewn geiriau; y mae'r gwrthwyneb yn fynych yn cael ei ddywedyd: er hynny felly y mae'n bod. Y mae ef mewn gwirionedd yn cael ei osod allan fel yn amherffaith mewn gallu, amherffaith mewn doethineb, amherffaith mewn cyfiawnder, mewn cariad, mewn sancteiddrwydd. Gosodir hyn allan mewn ffeithiau, neu yr hyn

a hònir fel ffeithiau *yn y Bibl, yn yr Hen Destament a'r Newydd, eill dau.* * * * *Yn y Testament Newydd, yn efengylau Mathew, Marc, a Luc,* y mae rhai cynneddfau arswydus yn cael eu priodoli i Dduw, y rhai oeddent yn perthyn i ddychymyg yr Hebreaid am Jehovah; ond y mae llawer iawn o gynneddfau tra thyner a hardd yn cael eu priodoli iddo hefyd." Tud. 61, "Y mae cred yn y diafol ymron yn gyffredinol yn y byd Crist'nogol. Y mae'n athrawiaeth y *Testament Newydd, ac yn athrawiaeth yr Hen Destament.* * * * * * * * Nid oes un *sect* Crist'nogol wedi gwadu ei fodoliaeth erioed; nis gallant tra'n credu yn anffaeledigrwydd yr ysgrythyrau." Tud. 70, "Yna gosodir allan ddarfod i Dduw unwaith ysprydoli dynion; Hebreaid a Christnogion. Nid yw yn ysprydoli un dyn yn awr fel gynt; y mae yn eich anfon yn unig at lyfr neu'r tŷcwrdd. Tybir nad yw Duw yn ysprydoli neb yn awr. Y mae wedi llefaru ei air diweddaf, ac wedi gwneuthur ei ewyllys ddiweddaf. Ni all dim cynnydd fod mewn Cristnogrwydd, dim allan o honi. Yr ydym wedi cael yr holl wirionedd crefyddol a rydd Duw byth. Y mae ffynon ysprydoliaeth wedi sychu i fynu yn lân, ac y mae Duw mor bell fel y gall yr enaid marwol grwydro dros ei fywyd marwol heb fyth ddyfod yn agos. Rhaid i'r cwbl y mae'n gael fod yn ail law." Tud. 89, "Y mae dynion yn cadw'r deg gorchymyn: yn hynny y maent yn gwneyd yn dda; ond y maent yn anghofio fod gan bob cynneddf o eiddo'r corph, pob cynneddf o eiddo'r yspryd—y meddwl, y gydwybod, y galon, a'r enaid—eu gorchymynion hefyd, *yr un mor awdurdodol* a phe buasent wedi eu taranu allan gan lais y Goruchaf o ganol cymylau Sina. Y mae'r grefydd boblogaidd yn gwadu hyn." Tud. 171, "Nid yw'r Testament Newydd, modd bynnag, ddim yn fwy unol *(unitary,* cysson efallai) yn yr ystyr hon na'r Hen, ac y mae'r Duw creulawn yn ymddangos yn fynych yn yr Efengylau, yr Epistolau, a'r Datguddiad—nid Tad, ond Arglwydd a Brenbin yn unig, yn gwneuthur *sploit* (exploitering) o ran o'r hîl ddynol gydag ysglyfaethgarwch di-drugaredd. "Yn nesaf ni a gawn rau o gredo Parker a welir ar tud. 263 a 264. "Wrth gwrs nid wyf yn credu mewn diafol, poenau tragwyddol, nac mewn un mymryn o ddrwg hollol ym myd Duw nac yn Nuw. Nid wyf yn credu fod gwyrth erioed wedi bod, nac y bydd byth; ymhob man yr wyf yn cael cyfraith, dull cysson yr anfeidrol Dduw o weithredu. Nid wyf yn credu yn ysprydoliad gwrthiol yr Hen Destament na'r Testament Newydd. Nid wyf yn credu mai'r Hen Destament oedd gair cyntaf Duw, na'r Testament Newydd ei air diweddaf ef. Nid yw yr Ysgrythyrau yn derfynoldeb *(finality)* i mi. Y mae ysprydoliaeth yn ffaith barhaus. Ni ddarfu i Brophwydi ac Apostolion fynu *(monopolize)* 'r Tad i gyd iddynt eu hunain: y mae ef yn ysprydoli dynion yn awr yr un cymaint a chynt. Yn natur, hefyd, y mae Duw yn llefaru o hyd. A ydyw y blodau hyn ddim yn eiriau newyddion Duw? Ai nid yw y cloddion *(fossils)* dan ein traed gannoedd o filldiroedd o drwch, yn hen eiriau Duw, wedi eu llefaru filiynau o flynyddau cyn i Moses ddechreu bod?—Nid wyf yn credu yn nechreuad gwrthiol yr eglwys Hebreaidd, na'r eglwys Fudhaidd, na'r eglwys Grist'nogol, na chymeriad gwrthiol Iesu. Nid wyf yn cymmeryd y Bibl yn feistr i mi, na'r eglwys chwaith; nac hyd yn oed Iesu o Nazareth yn feistr i mi. Nid wyf yn rhwym yn y mesur lleiaf i gredu yr hyn y mae yr eglwys yn ddywedyd sydd wir, na'r hyn y mae un ysgrifenydd yn yr Hen Destament neu'r Newydd yn ddywedyd sydd wir; ac yr wyf yn barod i gredu i'r Iesu ddysgu, yn ol fy marn i, poenau trag'wyddol, bodoliaeth y diafol, ac y byddai iddo ef ei hun cyn hir ddyfod yn ol ar gymylau'r nef. Nid wyf yn derbyn y pethau hyn ar ei awdurdod ef. Yr wyf fi yn profi pob peth trwy'r galluoedd dynol; pethau dealltwriaethol trwy'r deall, pethau moesol trwy'r gydwybod, pethau serchiadol trwy'r serchiadau, pethau crefyddol trwy'r enaid. A ddarfu i Dduw roddi rhywbeth i ni o well nâ'n nhattur? Pa fodd y gallwn ni ei wasanaethu ef a'i amcanion ond trwy arferiad rheolaidd o honi? Ond, ar yr un pryd, yr wyf yn parchu yr Eglwys Gristnogol am y daioni mawr a wnaeth i ddynolryw; yr wyf yn parchu yr Eglwys Fahometanaidd am y daioni mawr a wnaeth,—daioni lawer llai. Yr wyf yn parchu'r Ysgrythyrau am bob gair o wir y maent yn ddysgu; ac y *maent yn orlawn o wirionedd ac ardderchawgrwydd o un pen i'r llall.* Uwchlaw pawb dynion YR WYF YN PLYGU i'r person mawreddog hwnnw, Iesu o Nazareth, yr hwn fel yr ymddengys oedd yn berchen ar

wrolder dyn a thynerwch menyw,—meddwl nerthol, helaeth-afaelus, *(wide-grasping)*, rhesymiadol, olrheiniadol a phrydyddol dyn: a chydwybod menyw, calon menyw, ffydd menyw yn Nuw. Efe yw fy nychymygol hanesyddol goreu *(my best historic ideal)* o fawredd dynol; nid heb gyfeiliornadau, nid heb ystaen ei amserau, ac, yn ol fy marn i, wrth gwrs nid heb bechodau, oblegid nid yw dynion heb bechodau yn bodoli ond ym mreuddwydion merched, nid mewn ffaith wirioneddol; ni welsoch chwi erioed y fath un, na finnau, ac ni welwn byth. Ond Iesu o Nazareth yw fy nychymygol hanesyddol goreu i o ddyn erefyddol, ac y mae'n chwildroi y dyb gyffredin am fawredd dynol. Beth yw eich Cæsars, Alexanders, Napoleons, Bacons, a Leibnitz a Kant a Shakespeare, ac hyd yn oed Milton,—dynion o ymenydd ac ewyllys fawr,—beth ydynt hwy oll at y person hwn o ddeall mawr a thlws, o gydwybod fawr, a chalon ac enaid lawer cryfach fyth." Rhoddais y dyfyniad uchod mor llawn gan fod y da a'r drwg gyda'u gilydd ynddo. Y mae Parker yn plygu i'r Iesu er cymaint ei gyfeiliornadau, beiau, a phechodau. Hawdd y gallasai yn wir; ond pa fodd y cydsaif hyn â'r hyn a ddywedodd, fel y gwelsom eisioes, nad yw ef a'i eglwys ddim i edrych yn ol ond ymlaen am arweinyddion; ac hefyd â'r hyn a ddywed mewn man arall, fel y cawn weled nad yw addolwr y *spiritualism*, erefydd nattur, ddim i blygu i neb, na'r Iesu chwaith, nis gwn; gan hynny awn ymlaen â'n difyniadau gan dywallt deigryn o drueni wrth fyned heibio, fod talentau mor fawr yn cael eu darostwng mor isel. Ond at y difyniadau—

Works by Miss Cobbe. Cyf. I. tud. 317—18. "NID YW HI (spiritualism) YN PLYGU i un eilun o goed neu gnawd, o aur neu femrwn neu wynt wedi ei siarad; na Mammon na'r eglwys, na'r Bibl, NAC HYD YN OED IESU. Y mae'n cymmeryd pob cynnorthwy a all gael, heb gyfrif un gair yn halogedig er i bagan ei lefaru ef; un celwydd yn sanctaidd, er i'r prophwyd unwyaf ddywedyd y gair. Y mae ei gwaredwr oddifewn; ei hiechydwriaeth oddifewn, ei nefoedd a'i horacl o Dduw."

Vol II. tud. 16. "Yr hyn oedd grefydd dros amser y Patriarchiaid neu'r Prophwydi, neu'r Apostolion, neu'r Diwygwyr, neu'r Puritaniaid, nid yw ddigon i ymwybodolrwydd derchafedig dynolryw heddyw." Gwnaed y darllenydd gymmaint a chydmaru'r dyfyniad hwn a'r rhan olaf o'r dyfyniad o'i flaen, a thyned ei gasgliad ei hun. Tud. 25: "Y mae yn ymddangos i mi, medd Parker, fod gwerth y deall yn cael ei brisio ychydig yn rhy isel gan rai ysgrifenwyr yn y Testament Newydd, a doethineb weithiau yn cael ei throi heibio yn drwsgl." Tud. 28: "Dywedweh wrthyf i Dduw ysprydoli y seintiau Hebreaidd â doethineb, iddo lanw celyrnau mawrion Moses a Iesu; yr wyf yn ei gredu, ond nid seintiau Hebreaidd yn unig. Y mae seintiau Groeg, seintiau Rhufain, Germany, Ffraingc, y ddwy Loegr, yr Hen a'r Newydd; yn hongian ar fronau'r Nef, ac yn sugno ysprydoliaeth oddiwrtho ef yn yr hwn yr ydym yn byw yn ymsymud ac yn bod."

Cyf. iii. 26: Y mae'n ymddangos i mi fod y dyb hon (yr adgyfodiad) yn wrthun ac amhossibl: yn wrthun yn ei hathrawiaeth mewn perthynas i gyflwr presenol eneidiau ymadawedig; amhossibl yn yr hyn y mae'n ddysgu am adgyfodiad y corph hwn. Os ydyw fy enaid i hawlio'r corph etto, pa un y fydd ef, y corph i'm ganed iddo, neu o'r hwn y bum farw? Os byddaf fyw i oedran cyffredin dynion, gan newid fy nghorff fel y mae'n rhaid i mi, a marw'n feunyddiol, yna byddaf wedi gwisgo wyth neu ddeg o gyrff, felly yn y diwedd pwy gorff gaiff hawlio fy enaid i, oblegid y deg a'u cawsant hi. Fe all yr enaid ei hun eu hawlio hwynt oll. Ond i wneuthur y matter yn fwy dyrus fyth, nid oes yn y ddaear ond rhyw gyfran neillduol o sylwedd o'r hyn y gall cyrff dynol gael eu gwneyd. Wrth ystyried yr holl filiynau o ddynion sydd yn awr yn fyw, y myrddiynau o filiynau sydd wedi bod o'r blaen, y mae'n eglur, i'm tyb i, fod yr holl sylwedd addas i gyrff dynol wedi ei fyw drosodd lawer gwaith. Felly pe byddai i'r byd ddarfod heddyw, yn lle pob hen ddyn i gael deg corff o'r rhai i ddewis yr un fyddo yn ei *fitio* oreu, byddai deg dyn, oll yn croch-lefain am bob corph! A gaf fi ynte lonaid llaw o'm llwch biaenorol, a hynny yn unig? Nid adgyfodiad fy ngorff blaenorol yw hyn. Y mae'r holl athrawiaeth hon am adgyfodiad y cnawd yn ymddangos i mi yn wrthun ac amhosibl." Tud. 39: "Y mae'n Grist'nogol i dderbyn yr holl wirionedd yn y Bibl; yr holl wirioneddau nad ydynt yn y Bibl *yr un cymaint*. Y mae'n Grist'nogol hefyd i wrthod yr holl gyfeiliornadau a

ddeuant attom o'r tu allan i'r Bibl ac o'r tu fewn i'r Bibl. Nid yw Duw wedi marw, ac nid yw yn cysgu, ond mor ddihun a byw ag erioed gynt Y mae ef yn ysprydoli dynion yn awr fel cynt; mor barod i lanw eich meddwl, eich calon, a'ch enaid chwi â gwirionedd, cariad, bywyd, ag oedd i lanw Moses a Iesu, a hynny ar yr un telerau. Oblegid y mae ysprydoliaeth yn dyfod trwy gyfreithiau cyffredinol, ac nid trwy eithriadau pleidgar. Y mae pob dernyn *(point)* o ysbryd, yn gystal a phob gronyn o'r eangder yn cael ei fâddo o hyd ym morlif *(tide)* y Duwdod." Tud. 175—6; "Y mae drygioni yr hil ddynol, cyn a chaedi y diluw, yn sydol i Dduw, yr hwn a edifarhaodd iddo wneuthur dyn, gan fod y gwaith yn troi allan mor ddiffygiol ac hyd yn oed mor ddinystriol. Y mae Duw yn dysgu trwy brawfiadau (*experiments*), llawer o honynt yn troi yn gollion: felly y mae'n rhaid iddo ddistrywio ei waith, a'i threio hi etto, heb lwyddo bob amser yr ail a'r drydydd waith—nac hyd yn oed yn y diwedd."

"Y mae ef (Duw'r Bibl) yn amherffaith mewn cyfiawnder. Y mae'n fynych yn troseddu y synwyr moesol (*moral sense*) yr hwn a osododd yn y nattur ddynol, y mae'n dwyllodrus ac yn angerddol greulawn, sylwch ar y gorchymyn i Abraham i aberthu Isaac, i Moses i *fwtchera*'r Canaaneaid; sylwer ar fuddugoliaeth yr Oen yn llyfr y Datguddiad, gyda'i fyddin ddwyreiniol o ddau can miliwn o wŷr meirch, yn dinystrio y dydedd ran o'r hil ddynol yn un chwarter o'r byd, a'r gweddill o'i weision milwraidd, yn y chwarter gorllewinol, mewn un frwydr yn gwneuthur spottyn o waed ar y ddaear yn ddau can milldir yn ei dryfesur lleiaf ac un fodfedd ar bymtheg ar ugain (llathen) o ddyfnder. Y mae'n amherffaith mewn sancteiddrwydd. Nid yw yn cadw uniondeb ei ymwybodolrwydd ei hun, ond yn wirfoddol yn troseddu ei deimladau goreu ei hun. Yn y modd hyn y mae'n wyrthiol yn caledu calon Pharaoh, gan ddyrysu ei gynghorion; y mae'n anfon yspryd drwg i Saul, ac yn cynhyrfu Dafydd yn lledradaidd i gyfrif Israel fel y gallai ef ymddial arnynt, ac felly yn *twyllo* trwy *ysprydoliaeth*."

Ddarllenydd, a all fod gan hwn barch i'r Bibl? A oes rhyw Ddeist, o Paine hyd yn awr, wedi siarad yn fwy gwawdlyd na hyn am y Bibl? Ond ymlaen etto a'n dyfyniadau. Tud. 143—14: "Yr wyf yn dyfod i lawr ychydig ymhellach, ac yr wyf yn cael arch-leidr Hebreaidd (*a Hebrew fillibuster*), a byddin o ddynion mwy creulawn na'r Indiaid Camanshe. Y mae efe newydd orchfygu talaeth, lladd un brenin ar ddeg ar ugain, gan ladd y gwŷr, y gwragedd, a'r plant. Tarawodd hwynt â min y cleddyf. Efe a'u llwyr ddinystriodd hwynt. Ni adawodd neb i anadlu, Teml a thŵr a aethant i'r llawr Efe a *fwtcherodd* wrth y can mil. Y mae eu dinasoedd hyd etto yn mygu gan dân," &c. Tud. 237. "Yr oedd yr hen Fiblau yn gwneyd y tro i'r rhai ddarfu eu hysgrifenu hwynt; yr hen gredoau i'r cyfryw oedd yn eu credu. Y mae eisiau *cymhorth* yr hen Fiblau arnom ni, *ysprydoliaeth* y Biblau newyddion, yn deilliaw o hyd oddiwrth Dduw, yr hwn sydd yn llanw o newydd yr heu sêr yn y nefoedd, ac yn creu blodau newyddion bob gwanwyn ar y ddaear." Yn awr ni a adawn lawer o ddyfyniadau yn y drydedd Gyfrol, ac a awn, er mwyn amrywiaeth, ymlaen at rannau eraill o waith Parker. Nid damweiniol yw'r ymadroddion uchod, ond meddwl sefydlog a iaith gysson Parker ydynt.

The Critical and Miscellaneous Works of Theodore Parker, by Chapman. Tud. 9, 12, 14: "Y mae hi (Cristnogrwydd yr Eglwys) yn dywedyd wrthynt fod yn rhaid iddynt gydsynio â holl athrawiaethau a *storiau* yr Hen Destament, ac â holl athrawiaethau a *storiau* y Testament Newydd. Y mae'n ymddiried yn ysgrythyr amherffaith y Gair yn fwy na'r Gair ei hun, a ysgrifenwyd â bys Duw ar y galon fyw. Y mae'n dywedyd wrthych, â gwyneb sobr, am gredu pob gair a lefarwyd gan yr Apostolion,—egwan, luddewaidd, ffaeledig, rhagfarnllyd, camsyniol fel ag oeddent weithiau —am y rheswm hwn, oherwydd ysywaeth fod cysgod Petr a napcyn Paul yn gwella'r cloff a'r dall. Nid yw byth yn dywedyd wrthych, "Byddwch ffyddlon i'r yspryd a roddodd Duw; agorwch eich enaid a chwi gewch eich hysprydoli, tuhwnt i Petr a Phaul feallai. Tud. 136: "Ar awdurdod y gair ysgrifenedig cafodd dyn ei ddysgu i gredu chwedlau amhossibl, haeriadau anghysson; i gymmeryd ffug chwedl yn lle ffaith; brenddwyd yn lle datguddiad gwyrthiol Duw; pryddest ddwyreiniol yn lle hanes sobr digwyddiadau gwrthiol; casgliad o fugail-gerddi serchiadol yn lle traeth-

awd sobr am "gariad Crist a'r eglwys at eu gilydd;" y maent wedi eu dysgu i dderbyn darlun wedi ei gynllunio gan ddychymmyg gwynias y dwyrain na fwriadwyd erioed i'w gymmeryd yn wirionedd, fel prawf i'r anfeidrol Dduw siarad mewn geiriau dynol, ymddangos mewn dull cwmmwl, perth yn llosgi, neu ddyn, yr hwn a fwyttaodd ac a yfodd ac a ddiflanodd i fwg; iddo roddi cyfarwyddyd heddyw, a'r gwrthwyneb y foru; iddo droseddu ei gyfreithiau ei hun; ei fod yn ddigllon, ac iddo gael ei berswadio gan ddyn marwol yn unig i beidio ddinystrio cenhedl gyfan ar unwaith—mihynau o ddynion a wrthryfelasant yn erbyn eu blaenor mewn awr o gyfyngder." Dim ond un dyfyniad yn rhagor a roddwn o'r gyfrol hon etto, o lawer yn rhagor oeddem yn feddwl roddi. Tud. 148: "Mae dynion wedi cael eu hannog i gau eu llygaid yn erbyn y gwahaniaeth amlwg rhwng Luc a Ioan, y gwahaniaeth pwysig rhwng Paul a Phetr; i gredu ar y dystiolaeth leiaf hanesion ag sydd yn brawychu'r synwyr moesol ac yn sarhau rheswm, ac yn tueddu i osod Iesu yn yr un gyfres a Hercules, ac Apollonius o Tyana." Yr un gân sy gan y gweew o hyd. Yr un meddwl, yr un ymadroddion sydd yn rhedeg trwy ei waith oll mor belled ag wyf fi wedi ei ddarllen; ond unwaith etto at y dyfyniadau.

Bread cast on the Waters. Gallaswn ddyfynu y pedair pregeth o waith Parker, sydd yn y llyfryn bychan hwn, i brofi fy ngosodiad; y maent oll yn edrych yr un ffordd, yr erbyn Cristnogrwydd a thros yr *Absolute Religion, Theism*, neu grefydd natur, y drindod hon mewn undod. Ychydig ddyfyniadau o'r rhain etto, am y rheswm a roddais ar y cyntaf, sef nad damwain oedd i Parker siarad felly. Tud. 43, 44: "Ni ddarfu i'r Israeliaid roddi i fynu eu heilunaddoliaeth hyd ar ol y caethgludiad yn Babylon, yr hwn a ddechreuodd tua'r flwyddyn 586 cyn Crist, ac a ddiweddodd oddeutu pedwar ugain mlynedd ar ol hynny; yna darfu i gyffyrddiad â phobl undduwiaidd a gwareiddiedig gywiro'r bai hwn." Felly, ti wel, ddarllenydd, mai gan y Babyloniaid, ac nid gan Dduw trwy Moses, y dysgodd yr Israeliaid undod Duw. Ond ymlaen; "Y mae Duw yn ymddangos yn weledig—i Adda, Noah, Abraham, Jacob, a Moses. Y mae'n siarad a'r holl ddynion hyn yn y dull mwyaf cynnefin, yn yr iaith Hebraeg; "Duw a lefarodd wrth Moses wyneb yn wyneb, fel y siarada gwr a'i gyfaill. Y mae'n gwneyd *bargen* âg Abraham, yna â Jacob a'i feibion. Y mae'n cael ei chadarnhau yn ddifrifol am dâl da a digonol o'r ddwy ochr. Y mae am werth wedi ei dderbyn *(for value received)*: y mae Duw yn trosglwyddo llawer iawn o dir i Abraham a'i hiliogaeth, ac yn gwarantu'r *title*; y maent hwythau i enwaedu eu plant gwrrywaidd wyth diwrnod ar ol yr enedigaeth; dyna'r ammod ddifyr ar yr hon y maent yn dal Palestina. Y mae Duw yn tyngu y gwnaiff ef gadw ei gyfammod, ac er iddo weithiau gael ei demtio yn dost i'w thorri, er hynny y mae'n cadw at y llw. Y mae yn ciniawa gydag Abraham, gan ddyfod i mewn yn ddiarwybod ryw ddiwrnod. Y mae Abraham yn lladd llo "tyner a da." Y mae Sarah yn gwneyd teisenau o flawd wedi ei dylino, wedi eu pobi fel y gallasai *(extemporaneously)* ar yr aelwyd, Y mae ymenyn a llaeth yn cael eu gosod ar y bwrdd *(set forth)*, ac y mae Duw, gyda dau gydymaith yn cymeryd ei giniaw."

Yna y mae Parker yn myned ymlaen a'i haeriadau, fod Duw yn bartiol, yn eiddigeddus, yn llawn nattur ddrwg, yn greulawn; fod Josuah yn *fillibuster*, a Duw yn bwytta cig llo, ni adawn bethau o'r fath yna yn awr, gan eu bod wedi ymddangos eisioes un waith, ac y mae unwaith yn llawn ddigon. Tud. 57: "Pobl gyfammodol Duw yw'r Iuddewon; gwnaeth fargen a hwynt, trwy lw o bob ochr. * * * * Gorchymynodd iddynt gadw'r ffurf Foesenaidd o grefydd dros byth, ac os deuai un prophwyd, gwnaed a fynnai o wyrthiau, a dysgu iddynt feddwl arall am Dduw, rhaid iddynt ei osod i farwolaeth, a'i holl ganlynwyr, ynghyd a'u gwragedd, eu plant, a'u hanifeiliaid (Deut. xiii.). Ond yn awr y mae yr holl bobl etholedig hyn i gael eu damnio am byth oblegyd nad ydynt yn credu duwinyddiaeth Paul a Iesu, y rhai y mae y gyfraith ddwyfol yn gorchymyn yr Iuddewon eu lladd â min y cleddyf am ddysgu'r dduwinyddiaeth hono. Felly y mae Duw yn gorchymyn yr Iuddewon i ladd pob dyn yn eu mysg yr hwn a ddysgo'r athrawiaeth Grist'nogol, ac etto efe a'u damnia hwynt am beidio ei chredu hi." Digon, digon o'r fath ffolineb gobeithiaf, a digon hefyd i wirio'r ail ran dan ein sylw, sef fod Parker yn rhoddi i fynu yr enw Cristion. Paham y gelwir Paine yn ddeist, ond am ei fod yn esgrifenu yn ddi-

ystyrllyd am y Bibl. Paham y mae pawb yn meddwl ei fod yn rhoddi i fynu yr enw Cristion? Nid oherwydd ei fod wedi dywedyd, mewn cynnifer o eiriau,—"Nid Cristion wyf fi;" nage, ond am ei fod wedi ysgrifenu yn erbyn Crist'nogrwydd, ei hathrawiaethau, ei gwyrthiau, a'i hadgyfodiad. Wel, a gaiff Parker sydd yn gwneuthur yr un peth ag yntau, yr un mor ddiystyrllyd a gwawdlyd ag yntau pob tippyn, a gaiff Parker ei alw yn Gristion? Na, cyn wired a bod Paine wedi ymadael â'r enw Cristion, y mae Parker hefyd wedi gwneyd yr un peth, ac wedi rhoddi esgusawd dros hynn,—"Nid yw Crist'nogrwydd yn ceisio gan ddyn i alw ei hun yn Gristion;" nac ydyw, nac ydyw, yn enwedig dyn o'i fath ef. Felly yr wyf yn credu yr hyn a ddywedodd Miss Cobbe am dano, sef, "na ddarfu i Parker ddefnyddio'r enw Cristion yn ei ystyr ddiwinyddol am lawer o flynyddau." Pa fodd y gallasai, ac yntau o'r gred ag oedd, heb y twyll mwyaf, yr hocced waethaf. Na, na, y mae ef wedi ymadael â'r enw Cristion a dewis enw newydd yn ei le, lawer mwy cymwys i'w syniadau, yn ol ei farn ef, yr hyn ddaw dan ein sylw yn ein llythyr nesaf.

Feallai fod rhyw un yn barod i ddyweyd y dylaswn wrthbrofi yr hyn a ddywed Parker. Beth sydd genyf i wrthbrofi? Dim ond cruglwyth o haeriadau dyn gwallgofus, yn arllwys llysnafedd gwenwynllyd y neidr efengylaidd, a barchai yn fwy na'r Iesu, ar draws goreuon daear ac anwyliaid y nef; ïe, hyd yn oed ar draws Iesu ei hun, anwyl Fab Duw a charwr goreu dyn. Wel, mi a'i hattebaf mewn un gair, trwy roddi haeriad ymhen haeriad, a thyma'r haeriad, Nid yw Parker ddim yn iawn druan; mae ei haeriadau yn fyrbwyll a thrwyllodrus, a thyna'r matter ar ben.

Owen Evans.

LLINELLAU

Ar farwolaeth yr hybarch Foneddwr, William Watkin Wayne, Yswain, Plâs Newydd, Aberdar, yr hwn a fu farw Rhagfyr 9fed, 1863, yn 56 mlwydd oed.

Ow! galar mawr a chwynfan,
I'w glywed heddyw sydd,
Ar ol Boneddwr parchus,
Oedd hawddgar yn ei ddydd;
Ni gawsom ergyd clwyfus,
A bery amser maith:
Y mae yn ddigon ddodi
Y galon gleta'n llaith:
Ar nawfed dydd o Ragfyr,
Daeth newydd ger ein bron;
I'r 'Squire Wayne, Plâs Newydd,
Ffarwelo â'r ddaear hon:
'Roedd ef yn briod ffyddlawn,
A Thad caruaidd mad;
Ac hefyd gwir wladgarwr;
Yn barchus yn ei wlad.

Daeth angau mewn i'r Palas,
Wrth arch ein nefol Dad:
I dori'r rhwymyn hapus,
Oedd rhwng y teulu mad:
Er hyn mae'n gysur helaeth.
I'r rhai sydd eto 'n fyw,
Eu bod hwy yn ymddiried,
Yn noeth ragluniaeth Duw:
'Roedd Wayne yn ynad heddwch,—
Dyn cywir, mwyn, a chall,
Ac hefyd Feistr gweithiwr,
Na chafwyd ynddo wall:
Galarus yw cofnodi,
Yr hanes 'nawr i'r llu,
Ei fod ef gwedi huno
Yn nghwsg y beddrod du.

Ei galon oedd yn dyner—
Rhinweddol at y tlawd,
O'i roddi yn y ddaear,
Och! colled mawr a gawd:
Mae'i weithwyr oll, a'r ardal,
Yn teimlo galar dwys,
Ar ol eu gwron enwog,
Ddyn gwladgar gloyw glwys:
'Roedd 'Squire Wayne yn serchog
A pharod ysgwyd llaw,
Nid codi 'i ben yn uchel
Gan gadw oddiwrthym draw:
Ni wyddai ef am falchder
Rhai ffôl ffroenuchel byd,
Ond gwelai frawd yn mhobdyn
Fel Cristion isel fryd.

Boneddwyr, a chardotwyr,
Hên, ieuainc, bach, a mawr,
A'r cewri mwyaf cedyrn,
Sy'n cael eu tôri lawr;
Pa werth i'r cyfoethogion,
Yw tyru 'r aur ynghyd,
Pan delo awr cyfyngder,
Rhaid gadael rhain i gyd:
Boed ini gyda 'n gilydd
Trwy ystod byr ein oes
I garu'r Iesu 'n ffyddlawn,
Ac addfwyn ddwyn ei groes:
Wrth roddi fynu dwedaf,
O! rhodded Brenin nen,
I Deulu mwyn Plas Newydd
Ei fendith byth.—Amen.

Trecynon. Gwrgant

DAVID DAVIS, CASTELLHYWEL.

Y MAE y Parchedig Arthur Mursell mewn erthygl ar y diweddar Christmas Evans yn *Good Words* am fis Mehefin diweddaf (1863) yn cyfeirio fel y canlyn at yr hyn elwir ganddo yn "*tutor of Christmas Evans*"—

"Dangosodd Christmas Evans lawer iawn o'i yni naturiol yn y gwaith caled o hunan-ddiwylliant. Am y deng mlynedd cyntaf, neu ragor o'i fywyd, nis gallasai na darllen nac ysgrifenu, ond llwyddodd i ddysgu iddo ei hunan yr *accomplishments* hyn yn dra rhagorol mor bell ag yr oedd ei iaith ei hunan yn myned. Pan oedd disgwyliadau ei fywyd beth bynag yn dechreu ymlunio yn fwy penderfynol yng nghyfeiriad y weinidogaeth Gristnogol, dechreuodd ddysgu rhyw ychydig bach o'r *classics* dan y Parch. D. Davis o Gastellhywel. Ymddengys fod y Mr. Davis yma yn rhyw ryfeddod o ddyn. Yr oedd yn ddyn o faintioli cawraidd. Yr oedd y cymmydogion yn ofni rhoddi benthyg eu *ponies* iddo rhag ofn iddo dori eu cefnau; ac yr oedd ei deiliwr yn arfer siarad am dano ar ol ei farwolaeth gyda math o barch ofnadwy. Derbyniodd ei addysg yn y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin, ond crwydrodd ymhell oddiwrth y ffydd uniawngred. Cafodd ei arwain i'r crwydriadau yma, nid oddiar dymmer meddwl ammheugar, ond oddiar dynerwch sylweddol ei natur, yr hwn oedd yn peri iddo i ymgadw oddiwrth bob athrawiaethau ag oedd yn ymddangos iddo ef yn unrhyw ffordd yn ymyru a gobeithion dedwyddwch dynolryw. Dywedodd ei fod yn credu yng ngwir dduwioldeb John Calvin yn gystal a Dr. Priestley, er iddo gondemnio defnyddiodraeth *(materialism)* yr olaf yn y pennill difyr a ganlyn:—

"Here lie at rest, in oaken chest, Together packed *up neatly*,*
The bones and brains, flesh, blood and veins, And SOUL of Doctor Priestley."

Er gwaethaf ei ysgolheigdod mawr, a choethni ei feddwl, yr oedd o hyd yn parhau i fod yn wladaidd ac hyd yn oed yn ddrelaidd ei ymddangosiad. Digwyddodd bardd Cymreig un tro ei weled mewn diluw o wlaw wedi ei amwisgo o'i ben i'w draed mewn rheffynau nydd-droedig o wellt, ac anerchodd ef mewn pennill difyfyr, o'r hwn y mae'r canlynol yn gyfieithiad:†

"O Bard and Teacher, famed afar! Such light I never saw;
It ill becomes a house like thine To wear a roof of straw."

A dywedir i Davis ei atteb yn y geiriau hyn:—

"The rain is falling fast my friend; You know not what you say;
A roof of straw, methinks, does well Beseem a house of clay."

Cyf. CYMRO.

* "Together packed *most nicely*" yw'r gwreiddiol, nis gwn pa'm y cyfnewidiwyd ef, ond fe wel y cyfarwydd nad oes dim un o'r ddau yn odli yn rheolaidd. Y mae'r cyfieithiad canlynol, os wyf yn ei gofio yn iawn, yn cael ei roddi gan Tau Gimel yn hanes bywyd Mr. Davis:—

"Yma gorwedd wedi marw, Yn dra detheu mewn arch dderw,
Esgyrn, mhenydd, gwaed, gwythienau, Corph ac enaid Doctor Priestley."

† Y mae'r pennillion gwreiddiol rhywbeth yn debyg i hyn:—Yr anerchiad gan Ddaniel Ddu (?)

"Gwrandewch y prydydd rhywiog, A'r athraw doeth godidog,
Mae ysgub wellt yn wael ei lun Ar ysgwydd dyn mor enwog."

Yr atteb—

"Na feia gâr mor atgas, Mae'r gwlaw yn curo'n ddiflas,
A gwellt yn do fy nghyfaill sydd, Ar wàl o bridd yn addas."

Gohebiaethau.

CAPEL CWMMWRDU.

Mr. Gol.—Mwy da nas gallaf ddweyd fu genyf weled llythyr "D. D." yn eich rhifyn diweddaf ar adgyweiriad y capel uchod. Y peth goreu o'r cwbl oedd mai *layman* oedd yn ysgrifenu. Mae tipyn o bwys yn llais *laymen* pan yn dyfod allan i ysgrifenu ar fater o'r fath hyn. Eu gwaith hwy yn benaf mewn gwirionedd yw. Nid ydym ni y gweinidogion yn ddiau yn gwbl fel y dymunid ein cael. Ond os goddefir gair ô wir, a ddaw yn rhywle o waelod fy nghalon i gael ei ddweyd, y chwi y *laymen*, sy fwyaf ar ol ac nid y ni gyda phethau o'r natur hyn. Yr wyf yn dweyd hyn o galon dda, boed wiw genych chwithau roi iddo dderbyniad teilwng. Rhy fynych y dysgwyliad yw ar fod i ni y gweinidogion i gymeryd pob baich ar ein cefnau: i danysgrifio, i adeiladu, i ymrwymo am arian, a chant a mil o bethau, tra y byddwch chwi a llygaid craffus beirniadol a'ch dwylaw haner-cauedig yn eich llogellau. Gan fod eithriadau, ac na chyffwrdd hyn a'r rhai yr wyf fwyaf adnabyddus â hwynt wrth gwrs; ond os oes rhaid—a phaham lai—i'r gwir gael ei ddweyd, dyna fe. Y chwi *laymen* ar y cyfan sydd ar ol. Amheuwch os gellwch, a mawr dda i chwi. Ond yn awr dyma *layman* yn dod allan. *Layman* o'r ardal fuasai oreu; ond *layman* o rywle, arwydd dda yw.

Yr wyf yn cydfyned ag yspryd llythyr "D. D." Am "y difaterwch a'r musgrellni" a grybwylla, nis gallaf roi barn, a gwell peidio a dannod hen feiau yn awr. Mae y tir wedi ei brynu—clod i ffyddlondeb y diweddar Dr. Lloyd, yr hwn y gwelwn ei eisieu mewn llawer ffordd,—a'r arian am y tir wedi eu talu. Ond aros ar haner y ffordd fyddai aros yn y fan hon. Gwaith heb ei orphen, gwaith anhawdd ydyw, a gwaith di-elw. Mae eisiau gweled y Cwmmwrdu yn dŷ cymhwys i bregethu ynddo. Nid rhyw orchest fawr fyddai hyn. Fe danysgrifwyd, gan weinidogion yn benaf, amser cwrdd Hydref Llandilo, tua deg neu ddeuddeg punt dybygwn. [Gyda'r Parch. Titus Evans a fu yn ffyddlawn iawn am gryn amser yn ei ymweliad a'r Cwmmwrdu, y mae'r cyfrif.] Ond a gwneyd y peth yn fater cyhoeddus a gwahodd cyfraniadau, nid oes ddadl na ddeuai'r swm i fynu yn glau. Mae "D. D." islaw y marc gyda golwg ar y draul. Mae genyf well sail na'm barn fy hun dros ddweyd y rhaid cael yn rhywle oddeutu swm y pryniad (£30) tuag at adgyweirio. Ond beth yw hyny rhwng cynnifer.

Mae pwnc arall ynddi: Pwy a geir i bregethu? Atebed pob un drosto ei hun; ond parhaf fi i wneyd fy rhan eithaf yn hyn fel pob peth arall mewn cysylltiad a'r lle hwn. Nis amheuaf ar hyn o bryd nas gwna gweinidogion sir Aberteifi eu rhan, a'r myfyrwyr yng Nghaerfyrddin eu rhan hwythau, a gweinidogion sir Caerfyrddin hefyd hyd y gallont. Nid rhaid i ddechreu cael cwrdd *bob* Sabbath. Mae anhawsderau mawrion yma. Eto nid gwiw dweyd: "Y mae llew mawr yn yr heol." Yr wyf yn meddwl fod y lle wedi ei *supplio* pan oedd pregethwyr yn brinach nag y maent yn awr. Boed i'r *laymen*, (a llawer fyddont), a ddadleuant mor deilwng dros ei ail-agoriad i wneyd rhyw gymmaint o drysorfa tuag at ddigolledu'r gweinidogion, os nad yw hyn yn ormod i'w ddysgwyl. Dodent eu hysgwydd dan y baich. Mae llwch rhai ffyddlawn a rhinweddol yn gorwedd yn ymyl. Mae maes gobeithiol yn yr ardal pe na wnaem ond llwyddo i gael ynghyd lawer na fynychant un lle o addoliad yn awr. Mae'r lle yn anwyl i mi fel y man y clywais y bregeth Undodaidd gyntaf yn fy mywyd pan nad oeddwn ond llanc 10 neu 11 oed;—mae'r testun, y pregethwr a'r gynulleidfa fel y ddoe yn fy nghof. Y diweddar Barch. P. Joseph oedd y pregethwr; y testun: "Daionus yw'r Arglwydd i bawb; a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd."

Ni fydd fy rhan i yn ol. Gweded rhyw ychydig o'm cyd-lafurwyr hyn, a boed i chwithau *laymen* i wneyd eich rhan chwi, a dyna'r gwaith ar ben.

Yr eiddoch Syr, yn ffyddlawn,
W. Thomas.

Llandyssul, Rhag. 25, 1863.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Mr. Gol.—Gwelir yn yr Ymofynydd (Rhagfyr, tud. 288) yn y 3edd linell o'r Englynion er cof am yr hen brydydd

Ifan Thomas Rhys:—"Gyda ei gan e gwyd grydd," lle dylai fod yn ol y cyfansoddais hwynt yn—"Gyda ei *gair* e gwyd grydd." Gyda ei gan e gwyd grydd;—nid oes cynghanedd ynddo.—Mae'n hollol wallus. Hefyd, "Gadai'r wnïo" yn lle *Gadai 'i* wnïo. Mae hyn yn warth nid yn unig i'r cyfansoddwr ond mae hefyd i'r YMOFYNYDD. Gan hyny teimla y Gohebydd ei hun yn diflasu weled ei eiddo yn ymddangos yn gàmach nag ydyw mewn gwirionedd.

Yr eiddoch yn ddidwyll iawn,
Rhagfyr 30, 1863. T. H.

[Heblaw y gwallau a nodwyd uchod digwyddodd dau eraill o leiaf ag sy'n ddyledus i'r Argraff-wasg:—Engl. *5*, llin. 1, "anufudd" yn lle *anufydd;* llin. 2, "dr'n" yn lle *drán.* Mae y fath wallau yn digwydd weithiau er i'r Golygydd wneud ei oreu i'w gochelyd: weithiau cyfodant oddiar fod y meddwl neu y llythyreniad yn aneglur neu yn amhëus; os nad ydym yn çamsynied mae gwallau etto yn aros yn yr Englynion, o ran cyfansoddiad a grammadeg, y rhai nid oes eisieu eu nodi i'r cyfarwydd. Rhaid i ni addef fod yr englynion mewn rhai manau yn bur dywyll i ni; ac mai gwell feallai fuasai i ni eu hanfon yn ôl i'r cyfansoddwr i'w diwygio ganddo yr *ail* waith. Nid y'm yn meddwl fod gan T. H. achos i achwyn cymmaint oherwydd fod y llythyren *r* rywfodd wedi llusgo i mewn yn lle y llythyren *i:* gallai'r neb a fedrai farnu ganfod ar unwaith mai gwall argraffyddol ydoedd, ac un rhwydd ei ddiwygio. Mae llin. 1 a 2 o'r 3ydd englyn, modd bynag: "Gadai i wnïo i gyd i Wynedd," &c. yn cynnwys gwers fuddiol a phwysig; a theilynga T. H. ganmoliaeth neillduol os ei amcan ydoedd i ddàl i fynu y *cobler* prydyddol o Lanarth, fel esampl i'r prydyddion cobleraidd sy'n hoffi gwnïo neu *stitcho* darnau ynghyd yn anghyssylltiadol, ac yn barod i aberthu synwyr a grammadeg er mwyn cynghanedd. O'r tu arall, paham y gadewir y cyfryw oferwaith "i gyd *i Wynedd*" os nad yn unig er mwyn y gynghanedd? A phaham y gelwid Llundain "y *llon adwedd*" os nad oherwydd yr un rheswm; neu y cyfeirid at y brif-ddinas o gwbl? A ddarfu'r prydydd *enwog* oll fyned ar y *tramp* tua Llundain? Rhaid gadael y cwestiynau hyn ac eraill i'r prydydd ieuangc ac i'w feirniaid ar lan Teifi. Anhyfryd iawn i ni yw bod yn swrth i gyfansoddwyr ieuainge. Y mae amryw gyfansoddiadau ammherffaith wedi cael ymddangos yn yr YMOFYNYDD o bryd i'w gilydd. Ar y cyfan gobeithiwn y try hyn yma i gyd er daioni.—GOL.]

CWRDD NADOLIG Y LLWYN.

Bore'r Nadolig cynhaliwyd cwrdd adrodd a chanu yn Llwynrhydowen; gweinidog y lle yn y gadair. Yr oedd y capel yn orlawn. Rhoddai corau y Llwyn a'r Bwlch eu gwasanaeth; y blaenaf yn cael ei arwain gan Mr. Evan Jones, Gelliaur, a'r olaf gan Meistri John Thomas a John Jones.

Adroddwyd gan aelodau o ysgol y Bwlch fel y canlyn: Nadolig Crist, gan Jane ac Anne Williams, Waen; Beddrod fy Mam, gan Margaret Thomas, factory, Yn Erbyn Cyfeillach Ddrwg, gan Evan Thomas, Rhydysais; Addysg Dda. gan Evan Thomas, factory; Teimlad yr Amddifad, gan Gwen Davis, Llettwr; ymddyddan ynghylch yr Ysgol Sul, gan Gwen a Mary Davies, Clettwr; Cynnadledd ar Fodoliaeth a Phriodoliaethau Duw, gan James a John Davies, Clettwr; Cyfamod Disygl, gan Anne Davies, Bwlch; Taith Cwmwl Henaint, gan Esther Williams a Mary Jones; Rhagoriaeth Crist'nogrwydd ar Baganiaeth, gan Thos. Jones; Dadl y Rhyfelwr a'r Aradwr, gan Evan Thomas a Jno. Davis.

Canodd y côr: Clod y Fenni, Y bugail dedwydd, Gyda phwy yr ymunwn yn y gân; Edward Jones ac Evan Thomas, y deuawd, Pa beth yw oes? a'r olaf y *solo,* Y nefoedd.

Adroddodd aelodau o ysgol y Llwyn fel y canlyn: Anerchiad i Fethlehem, gan John Charles, Penycwarre; Gwahoddiad i'r ysgol Sul, gan Thomas Jones, Gelligron; Prynu gwirionedd, gan John Thomas, Waen; Daioni Duw, gan Thos. Thomas, Llwyn; Penill wrth fyned i orphwys, gan Thos. Evans; Ymddyddan rhwng Cristion ag angeu, gan Mary a Hannah Jones: Nid oes genyf fam yn awr, gan David Jones, Newgate; Y fam a'r fereh, gan John Thomas, Gwarcoed; Moesgarwch, gan Elizabeth Thomas, Domen; Ymddyddan rhwng Ieuan ac Iwan, gan David Thomas, Waen, a Thomas Evans, Blaencathal: Ti wyddost beth ddywed fy nghalon, gan Stephen Thomas; Y mab afradlon, gan John Thomas, Gwarcoed, Addysg fore, gan Mary Davies, Pantscawen; Nos Sadwrn y gweithiwr, gan Thomas Jones; Cân y gweithiwr, gan Thomas Evans, Blaencathal; Meddyliau am y nef, gan Mary Jones, Newgate; Moliant o enau plant,

gan Hannah Jones, Moelhedog; Yr ynfydrwydd o geisio sefydlu cred, gan Mary Jones, Penbont-shan; Afonig ar ei thaith, gan Hannah Evans, Gelligron, a Mary Davies, Pantscawen; Siwrne bywyd gan Margaret Davis, Newgate; Adgofion mebyd, gan Stephen Thomas; Cân mewn cystudd, gan Edward Thomas, *mason*; Myfyrdod mewn mynwent, gan Thomas Thomas, Llandyssul. Cafwyd darn gwreiddiol o brydyddiaeth fel anerchiad i'r ieuenctyd, tra phwrpasol, gan Thomas Thomas, Cwrtnewydd.

Canwyd y choruses: Delynorion, trewch y tant, Heddwch, Y Gwanwyn, a Deffroad y Gân; y quartetts: Dymuniad a Rhaiadr; y trio: Rhos olaf yr haf; y duett: Hen dŷ fy nhad gan Sarah a Hannah Jones; a'r solos. Y Mud a'r Byddar ac Ymweliad y Bardd gan Jane Lewis, Hen Wlad fy Nhadau gan Evan Jones yr arweinydd, y côr yn uno yn y chorus; diweddwyd trwy ganu y Prince of Wales, yr holl dyrfa yn sefyll ar eu traed, a Thomas Thomas, Pwllffine, yn cymeryd y solo

Elsai yn rhy faith i roi enwau yr holl gantorion i lawr. Os oes neb o'r adroddwyr wedi ei adael allan, neu os oes rhyw gamsynied arall, maddeuir i'r ysgrifenydd. Yr oedd yr adrodd a'r canu ar y cyfan yn rhagorol. Tystiai llawer oedd mai dyma'r cwrdd Nadolig mwyaf blasus ac adeiladol a gawsant er ys llawer dydd. Cododd bagad o'r adroddiadau y dagrau i bob llygad trwy'r dorf. Yr oedd y darnau wedi eu dethol o Delyn Dewi, Crwth Dyffryn Clettwr, Gwinllan y Bardd, ac o lawer o fanau eraill. Yr oedd ôl llafur mawr ar y cyfan, ac y mae clod uchel yn ddyledus i'r adroddwyr a'r cantorion a'r rhai a fuont a'u holl egni yn addysgu'r plant pan yn ymbarrottoi. Gorphenwyd a dechreuwyd y cwrdd trwy weddi. Cael llawer cwrdd o'r fath eto yw gwir ddymuniad yr ysgrifenydd.

W. T.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Yn rhy fynych oherwydd meithder anarferol rhai gohebiaethau ac yn ganlynol gweled fod y gofod yn brin, gorfodir ni yr awr olaf i adael allan rai hanesion a chwtogi eraill oreu gellir ar y pryd; ac ofnwn fod y gongl hon o'r Ymofyydd yn aml ymddangos i'n darllenwyr yn fwy anghyflawn ac amherffaith nag a allesid disgwyl iddi fod. Ar hyn o dro ni chaniatteir i ni wneud rhagor nâ *chyfeirio* at ddau neu dri o bethau ag sy'n tynu sylw cyffredinol yn y dyddiau hyn; gan obeithio y gellir gwneud i fynu am y diffyg yn ein rhifyn nesaf.

Y Llys.—Dydd Gwener, yr 8fed o Ionawr, yn Frogmore Lodge, ger Windsor, esgorodd Tywysoges Cymru ar Fab: dywedir fod y Tywysog ieuanc a'i Fam yn gwneud yn wych.

Y Cyfandir.—Mae yr awyrgylch wleidyddol ar y Cyfandir yn edryeh yn gymmylog ac yn fygythiol ar ddechreu y flwyddyn newydd. Y mae pobl Germany, cenedl a ystyrid yn un fyfyrgar ac amyneddus, wedi tòri allan dan ddylauwad eu brenhinoedd a thywysogion bychain, yn frwdfrydus i fyned i ryfel am rywbeth neu ddim. Nid yw y meddiant o Holstein a Schleswig ddim yn werth sôn am dano yn ngwyneb y perygl o iddynt drwy eu hymyraeth trachwantus ddwyn melldithion rhyfel ar ben eu gwlad eu hunain ac ar Ewrop. Oni buasai Denmarc yn fwy pwyllog nâ Germany buasai brwydrau gwaedlyd wedi cymeryd lle cyn hyn. Mae byddinoedd Germany eisioes wedi meddiannu Holstein; ac y maent yn bygwth Schleswig.

CYFARFOD CWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Cwarterol Nadolig yn y Notais, dydd Iau y 31ain o Rhagfyr. Y prydnawn o'r blaen am chwech, pregethodd y Parch. W. Rees, Ciliau, oddiwrth Matt. v. 19; a'r Parch. Titus Evans oddiwrth Dad. ii. 17. Boreu dydd Iau am 11eg, er fod yr hin yn bur annhymerus, yr oedd cynnulleidfa barchus a lliosog wedi dyfod ynghyd. Yn absenoldeb y pregethwr Saesneg a ddisgwylid pregethodd y Parch. J. E Jones yn fyr oddiwrth Marc i. 1. yn Saesneg; a'r Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg oddiwrth 1 Ioan iv. 10. Yr oedd y

pregethwr appwyntiedig, y Parch. R J. Jones, Aberdar, yn bresenol, ond oherwyrdd ei gystudd diweddar, teimlai yn analluog i bregethu. Yn y gynnadledd ar ol y cwrdd, (gweinidog y lle, y Parch. T. Lloyd yn y gadair), llefarwyd ar y pwngc —Beth sydd i'w ddeall wrth "greadur newydd yn Nghrist Iesu," gan y Parchn. Titus Evans, Caerfyrdddin, Owen Evans, Cefn, a J. E. Jones, Penybont. Cyttunwyd ar fod y Cyfarfod nesaf (y Pasc) i fod yn Blaengwrach, a'r Parch. O. Evans, Cefn, i bregethu, a'r un cwestiwn i fod yn destun y gynnadledd. Cafwyd cyfarfodydd anghyffredin o dda o'r dechreu i'r diwedd.

Bu Farw.

Nos Sabboth, y 5fed o Hydref diweddaf, yn ddisymwyth, yn ei ystafell, Mr. Thomas Williams, Red Cow Inn, Llwydcoed, yn 63 oed. Y drefn gyffredin gan ysgrifenwyr a chofnodwyr marwolaethau yw gor-gamawl yr ymadawedig. Gwell genyf y teimlad hwnw na'r tuedd i orgymenu; barned y darllenydd. Ond digon yw am y byw ac am y marw dim ond y gwir. Yr oedd Thomas Williams, fel pawb eraill, yn ddyn, ac felly yn agored i anmherffeithrwydd. Ond gall yr ysgrifenydd oddiar berffaith adnabyddiaeth a phrofiad o hono dros 35 o flynyddau, ddywedyd ei fod yn ddyn parod ei gymmwynas, hawdd ei drin, ac onest yn ei drafodiaeth. Hebryngwyd ef gan dorf luosog o'i gymdogion o bell ac agos ar y 7fed i fynwent eglwys plwyf Penderyn, i aros hyd pan caiff pawb eu barnu yn ol eu gweithredoedd.

Iawn gyfaill oedd hwn, gafodd—ei daro
I'w derfyn, a hunodd:
O'i hên dre hwn a drodd;
A'i boenau lwyr ddibenodd.
CARW COCH.

Dydd Iau, Rhagfyr y 10fed, Mrs. Mary James, gwraig Mr. John James, crydd, Aberdar, gynt o'r Berthlwyd, Ceredigion, yn 51 oed. Cafodd ei chystuddio am yn agos i 5 mlynedd, ac yr oedd bob amser yn hynod o amyneddgar yn ei dolur, ac yn ymfoddloni i ewyllys ei Chreawdwr hyd yn oed pan ar roddi ei hanadliad olaf, a chredai yn ddiysgog ei fod yn dwyn ym mlaen ei amcanion yn y ffordd oraf er lles ei blant bob amser, pan daw y profedigaethau chwerwaf dan law angau ei hun. Yr oedd yn aelod gyda'r Undodiaid yn agos i 30 o flynyddau yn Nghapelygroes, Ceredigion, ac wedi hyny yn Aberdar; ac yr oedd yn un o feddwl cryf, ac yn hoff iawn o egwyddorion a syniadau Undodaidd; fel yr oedd yn barod bob amser i "roddi rheswm am y gobaith oedd ynddi," dros yr egwyddorion a broffesai. Yr oedd yn ei theulu yn gweini'n fam dyner a charuaidd, diwyd ac onest yn ei hamgylchiadau; ac yr oedd ei ffydd yn gadarn dros egwyddorion cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd; a gellir dywedyd am dani yng ngeiriau y gwr dceth: "Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwylaw, a chanmoled ei gweithredoedd hi yn y pyrth." Yr oedd yn fenyw ddeallus ac ymofyngar, ac yr oedd yn berchen ar radd helaeth o'r awen farddonol, fel mae rai o'i chyfansoddiadau wedi ymddangos yn yr YMOFYNYDD yn brawf o'i galluoedd at y gwaith. Gadawodd ar ei hôl briod ag un mab galarus, a llawer o gyfeillion a pherthynasau eraill, a diau eu bod yn teimlo yn ddwys o'i cholli; ond na fydded iddynt i alaru yn ormodol "fel rhai heb obaith am y rhai a hunasent," ond i ymgysuro yn addewidion y grefydd Gristnogol. Y Sadwrn canlynol ymgynullodd amryw o gyfeillion i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref" yn y *eemetery;* a phregethodd ar yr achlysur y Parch. R J. Jones, A.C., oddiwrth Heb. 9. 27; a dangosodd mewn modd eglur a digamsyniol mai gosodiad Duw yw marwolaeth, ac mai ansicr yw bywyd dyn pan fo ar y goreu; wedi hyny gosodwyd y trancedig i orwedd yn ei gwely oer hyd ganiad yr udgorn diweddaf. Wele linellau a gyfansoddwyd gan y trancedig i'w canu ar ddydd ei hangladd wrth y drws cyn cychwyn:—

"Ffarwel fy mhriod teg o ddawn,
Ffarwel fy mhlentyn anwyl iawn;
Ffarwel gyfeillion fawr a mân,
'Rwy'n ledio'r ffordd i fyn'd o'ch bla'n.

Mi gefais yma ar fy nhaith,
Fy nhrwm gystuddio amser maith;
Dirwynodd awr fy olaf ddydd,
I'm rhoddi yn fy ngwely pridd.

Ond na alerwch ar fy ôl,
Waith nid yw hyn ond gwagedd ffol;
Mae marw yn well i mi na byw,
Os caf drugaredd gyda Duw."
Aberdar. EIDDIL CYNON.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 19eg, yn 61 mlwydd oed, yn bur annisgwyliadwy i lawer o'i gyfeillion pellenig, y Parch. John Jones, gweinidog yr Hen-dŷ-cwrdd, Heolyfelin, Aberdar, oddiar y flwyddyn 1833. Yr oedd iechyd ein hen frawd i'w ganfod yn gwaethygu ys rhai misoedd, ond nid oeddid yn meddwl bod dydd ei fywyd a gwaith ei ddydd yn tynu mor agos at derfyniad. Disgwylir Cofiant Mr. J. erbyn ein nesaf, neu yn fuan iawn.

Barddoniaeth.

I'R BIBL GYMDEITHAS.

O na feddwn ar fath ddoniau,
Ynwyf yn fywydol dân,
A chael Awen bur iawn olau
Nes i'm nyddu teilwng gân;
I'r "Gymdeithas" hardd ei nodwedd,
Ffurfiwyd ar fath sail ddi-gryd,
Er hyrwyddo'n rhad anrhydedd
"Bibl i bawb o bobl y byd"

Ym mhob gwlad mae 'i dylanwadau
Wedi agor llawer bron,
Nes ymuno o'u calonau,
I ddo'd mwy dan faner hon;
O mor gryf mae ei heffeithiau,
Drwy wasgaru Gair ein Duw,
Lles tragwyddol gwael eneidiau,
'Gael rhan wrth farw, ac i fyw.

Prydain! mawr yw'r rhagorfreintiau,
Sydd o fewn dy furiau di:
Ynot mae'r fath sefydliadau,
'N dwyn cysuron fal y lli;
Nid oes un mor ogoneddus
A'r Sefydliad, sad ei sedd,
Sydd a'i amcan tangnefeddus
I bob llwyth ac iaith 'r un wedd.

Aed ym mlaen ac yn llwyddianus
I bell gonglau anial byd,
At Baganiad ofergoelus,
Nes diflano'r drwg i gyd;
Nes llwyr ddymchwel pob gau-ddduwiaeth
Diffodd pob gelyniaeth drist,
Dwyn y byd dan weinidogaeth
Bur efengyl Iesu Grist.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

YR *YMOFYNYDD* AM 1864, AC ARWYDDION YR AMSERAU.

Tyred allan etto'n wrol,
Pleidia Ryddid, meddwl mad:
Mae dy arwydd-air hyfrydol
I ddyn-garwr yn fwynhad;
Er mai ychydig sydd yn Nghymru
Yn mawrygu'th ymgais wir,
Mae arwyddion gwân yn gwenu
Ag sydd yn adloni'n tir.

Mae marworyn byw o allor
Rhyddid wedi myni tân;
Ynghredoau gwael ein goror,
Ac fe'u pura'n gwbl lân;
Trech yw'r gwir nâ phoethlyd *stanciau*,
A chyfreithiau, twyll a brad;
Ië, cryfach yw nag angau,
O! teyrnased yn mhob gwlad.

Mae'n ofidus ar esgobion:
Ond pa ryfedd ydyw hyn?
Ymryddhau mae 'u carcharorion,
Hir bu 'u traed mewn cyffion tyn:
Beth ond rhyfyg yn y tadau
Yn *Nicea* oesau'n ôl
Oedd gwneyd CREDO meidrol fodau,
A honno yn un gwbl ffol.

'Roedd yn wae ar neb a feiddiai
Ddyweyd fod ynddi air o'i le,
Deddf y Senedd a'i chleddyfau
Wnai amddiffyn gair y ne';
Ond mewn rhan mae wedi newid,
Yn lle'r cledd rhesymeg sydd;
Y gwirionedd, elfen hyfryd,
Dyfod mae dy draed yn rhydd.

'R *Essays and Reviews* darawodd
Ergyd marwol ar y mûr:
Hyd ei gadarn sail fe siglodd
Hen fûr gormes, dyna gur.
Tra'r esgobion yn ei wella,
A Lushington mewn pryder mawr,
Yn cyhoeddi anathema,
Y mûr fu arnynt bron dod lawr.

Gan ofnadwy fagnel Natal,
Gwnaeth COLENSO'R mûr yn ddau,
Ergyd ydoedd heb gyfartal,
Byth nis gellir mwy ei gau.
Mae M.* Renan wedi gosod
Gwersyll Pabaeth oll ar dân;
YMOFYNYDD, dyma gyfnod
Sydd yn gyru'r gwir yn mla'n.

Ofer mwy i Mair i winco,
Nis geill hudo nemawr neb,
Mae ei dyddiau gwedi 'u rhifo
Addefir gyda'r rudd yn wleb,
O dy du dy di'r YMOFYNYDD
Mae Rhyddgarwyr yn mhob gwlad,
O dy du mae gair yr Arglwydd
Hwyr ddinystra dwyll a brad.

Lawr daw bydol draddodiadau,
Dâl yn wrol gyda'r GWIR,
Lladd y GWIR oedd dyben stanciau,
Man lle cynwyd byw yw'r gwir.†

G. BRYCHEINIOG.

* M. Renan yw enw awdwr "Bywyd Crist," yr hwn sydd wedi achosi mwy o niwed i Babyddiaeth na holl Anffyddwyr Frainc.

† Y mae eglwys Undodaidd ar y fan y llosgwyd Michael Servetus yn Geneva.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.